

Strategaeth a Ffefrir



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033

Ionawr 2020



CYNNWYS

Rhif Tudalen

| | | |
|------------|--|-----------|
| 1.0 | CYFLWYNIAD | 1 |
| | Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir gan y CDLI? | 1 |
| | Dogfennau Cefnogi | 2 |
| | Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 2 |
| | Sut i wneud Sylwadau ar y Ddogfen | 2 |
| 2.0 | CYD-DESTUN | 4 |
| | Cyd-destun Blaenau Gwent | 4 |
| | Cyd-destun Rhanbarthol | 5 |
| | Cyd-destun Deddfwriaethol | 6 |
| | Cyd-destun Polisi | 8 |
| 3.0 | HERIAU A SBARDUNAU ALLWEDDOL | 14 |
| | Heriau | 14 |
| | Sbardunau Allweddol | 16 |
| 4.0 | FFRAMWAITH STRATEGOL | 19 |
| | Gweledigaeth Newydd ar gyfer CDLI (2018-2033) | 19 |
| | Amcanion CDLI Newydd | 19 |
| | Opsiynau ar gyfer Twf a'r Strategaeth Ofodol | 23 |
| | Y Twf a'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir | 25 |
| | Polisi Strategol 1: Twf Economaidd Cynaliadwy | 26 |
| | Diagram Allweddol | 31 |
| | Canlyniadau | 32 |
| 5.0 | CYFLAWNI'R STRATEGAETH | 33 |
| | Polisiâu Strategol | 33 |
| | Canlyniad 1: Creu Rhwydwaith o Gymunedau Llewyrchus yn y Cymoedd (Creu Lleoedd) | 33 |
| | Polisi Strategol 2: Creu a Dylunio Lleoedd Cynaliadwy | 33 |
| | Polisi Strategol 3: Newid yn yr Hinsawdd | 35 |
| | Canlyniad 2: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Carbon Isel Ffyniannus a Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau | 37 |
| | | 37 |
| | Polisi Strategol 4: Cyflogaeth a Sgiliau | 39 |
| | Polisi Strategol 5: Twristiaeth sy'n Tyfu | 34 |
| | Polisi Strategol 6: Rheoli Mwynau Cynaliadwy | 42 |
| | Polisi Strategol 7: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | |
| | Canlyniad 3: Darparu Cymunedau â Chysylltiadau Da, Egnïol ac Iach | 44 |
| | Polisi Strategol 8: Cyflenwi Cartrefi | 44 |
| | Polisi Strategol 9: Sipsiwn a Chrwydriaid | 46 |
| | Polisi Strategol 10: Canolfannau Manwerthu a Datblygu | 47 |

| | |
|--|-----------|
| Polisi Strategol 11: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd | 49 |
| Polisi Strategol 12: Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol | 50 |
| Canlyniad 4: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig Arbennig | 53 |
| Polisi Strategol 13: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol | 53 |
| Polisi Strategol 14: Cadw a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig | |
| Polisi Strategol 15: Diogelu'r Amgylchedd | 55 |
| | 58 |
| 6.0 Y CAM NESAF | 60 |
| Safleoedd Ymgeisiol | 60 |
| Camau yn y Dyfodol | 61 |
| ATODIADAU | |
| Atodiad 1: Rhestr o'r Polisiâu CDLI Cyfredol y mae angen eu diwygio neu eu dileu | 62 |
| Atodiad 2: Rhestr o Bapurau Cefndir Strategaeth a Ffefrir a Thystiolaeth Gefndir | 65 |
| Atodiad 3: Opsiynau Strategaeth | 67 |
| Atodiad 4: Aseiad Polisi | 80 |
| Atodiad 5: Mapiau o Safleoedd Strategol | 83 |
| Atodiad 6: Dadansoddiad o Gyflawniadau Cyflenwadau Tai, Ymrwymadau, safleoedd bach a mawr ar hap | 86 |
| Atodiad 7: Rhestr Termau | 87 |

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gyfrifol am baratoi a diweddarau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Y CDLI yw cynllun defnydd tir y Cyngor a fydd yn cadarnhau ble a faint o ddatblygiad fydd yn digwydd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd hefyd yn nodi pa ardaloedd sydd i'w gwarchod rhag datblygiad. Mabwysiadwyd y CDLI presennol yn 2012 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2006-2021. Er bod angen CDLI newydd ar gyfer y cyfnod 2018-2033, bydd angen iddo adeiladu ar y CDLI cyntaf a fabwysiadwyd. Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad rheoli datblygu yng ngoleuni polisïau yn y cynllun newydd oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

1.2 Mae'r CDLI yn cael effaith uniongyrchol ac ystyrion ar gymunedau Blaenau Gwent. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) yn ymwneud â llunio dyfodol Blaenau Gwent fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Bydd y CDLIN yn ymateb i anghenion economi sy'n tyfu ac sy'n bwysig yn rhanbarthol gan wneud darpariaeth ar gyfer swyddi, cartrefi a seilwaith. Mae hefyd yn sicrhau bod llesiant ei chymunedau'n cael ei gynnal, a bod effeithiau datblygu a defnyddio tir yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Bydd yn llywio rhaglenni ariannu a buddsoddi, cynlluniau a strategaethau eraill tra'n darparu ar gyfer gwella a diogelu ein hamgylchedd a'n nodweddion amgylcheddol. Wrth wneud hynny mae'n darparu mesur o sicrwydd a hyder ynghylch pa fath o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu, ac na fydd yn cael ei ganiatáu, ac ym mha leoliadau yn ystod cyfnod y Cynllun.

1.3 Mae gan y rhan o Flaenau Gwent sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei chynllun datblygu ar wahân ei hun sydd hefyd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac nad yw'n rhan o ardal cynllun y CDLIN.

1.4 Ym mis Medi 2017, cynhaliwyd adolygiad o'r CDLI presennol a chyhoeddwyd adroddiad adolygu. Mae'r adolygiad hwn, er ei fod yn canfod bod sawl agwedd ar y CDLI a fabwysiadwyd yn gweithredu'n effeithiol, hefyd yn nodi bod materion y mae angen sylw arnynt mewn perthynas â rhannau o'r cynllun a'i strategaeth. Dangosodd yr adroddiad adolygiad nad oedd rhannau o'r strategaeth yn cael eu darparu yn ôl y bwriad gyda lefel a dosbarthiad gofodol y twf sydd angen ystyriaeth bellach.

Beth yw Strategaeth a Ffeirir CDLI?

1.5 Y **Strategaeth a Ffeirir** yw'r cyhoeddiad ffurfiol cyntaf ym mhroses baratoi'r CDLIN. Mae'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir tan 2033. Mae hefyd yn nodi faint o ddatblygu sydd ei angen ac yn fras lle mae hyn yn debygol o fod. Mae'n cynrychioli cwblhau cyfnod o baratoi ac ymgysylltu â'r cynllun cyn adneuo, y mae ei ganlyniad wedi cael dylanwad amlwg dros ddewis y Strategaeth a Ffeirir.

1.6 Diben cyffredinol y Strategaeth a Ffeirir yw:

- Nodi **Heriau a Sbardunau Allweddol** ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.
- Diffinio **Gweledigaeth CDLI** a set o **amcanion CDLI** trosfwaol sy'n ymateb i'r materion a'r sbardunau allweddol.

- Nodi graddfa'r twf a ragwelir yn y dyfodol o ran poblogaeth, tai a chyflogaeth, yn seiliedig ar ddadansoddi **Opsiynau Twf Strategol**.
- Disgrifio'r fframwaith cynllunio gofodol cyffredinol ar gyfer y Sir, yn seiliedig ar ddadansoddiad o **Opsiynau Gofodol** posibl.
- Nodi **Polisiau Strategol** eang a fydd yn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion.

1.7 Ni roddir dyraniadau defnydd tir penodol i safle a pholisiau rheoli datblygu manwl yn y ddogfen strategaeth hon. Bydd elfennau manwl o'r fath yn ffurfio rhan o'r cynllun adneuo. Fodd bynnag, atodir rhestr o bolisiau rheoli datblygu yn Atodiad 1 sy'n nodi pa rai sydd i'w diwygio a pha rai sydd i gael eu cadw.

Dogfennau Cefnogi

1.8 Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WGFGA), Asesiad Effaith Iechyd (HIA), Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EqIA) ac Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg (WLIA) er mwyn asesu i ba raddau y bydd y polisiau cynllunio newydd yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach y CDLIN. Cyhoeddir Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol o Strategaeth a Ffefrir Blaenau Gwent ar wahân ac mae ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd â'r ddogfen hon. Mae hefyd wedi cael ei sgrinio o dan yr Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd sydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

1.9 Mae'r dogfennau ategol eraill a restrir yn Atodiad 2 yn darparu'r rhesymeg a'r sail dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n fanylach ar rai o'r materion allweddol sy'n arbennig o bwysig i'r Fwrdeistref Sirol ac felly'r CDLIN. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Strategaeth a Ffefrir, gan mai dim ond eu prif ganfyddiadau a amlygir yn y ddogfen hon o ystyried y swm sylweddol o ddata a gwybodaeth gefndir sydd ynddynt. Cyhoeddwyd y rhain ar wahân ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

1.10 Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2019, cynhaliwyd cyfres o sesiynau gweithdy i adeiladu consensws o ran y materion/heriau y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu ac i'r CDLIN fynd i'r afael â nhw. Roedd y sesiynau gweithdy hefyd yn ceisio nodi lle rydym yn dymuno bod erbyn 2033 ar ffurf Gweledigaeth. Adnabyddwyd hwn fel Gweithdy 1. Cyhoeddwyd [adroddiad llawn o'r ymgynghoriad ar Weithdy 1](#) ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

1.11 Yn ystod Gorffennaf 2019, cynhaliwyd Gweithdy 2 a oedd yn cynnwys cyfres o sesiynau mewn perthynas â nodi'r lefel o dwf a ffefrir, dosbarthiad gofodol twf a hierarchaeth aneddiadau er mwyn cyflawni'r twf gyda'r bwriad o adeiladu consensws ar ddewis strategaeth ofodol ar gyfer y CDLIN sy'n mynd i'r afael â'r materion/heriau ac yn bodloni'r weledigaeth. Cyhoeddwyd adroddiad llawn o'r ymgynghoriad ar Weithdy 2 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Sut i wneud Sylwadau ar y Ddogfen hon

1.12 Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn croesawu eich barn ar y Strategaeth a Ffefrir CDLIN. Bydd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos yn rhedeg o Dydd Iau 16eg Ionawr i ddydd Iau 27ain Chwefror 2020, ac mae copïau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, Anvil Court, Abertyleri a phob llyfrgell gyhoeddus.

1.13 Dylech gyflwyno unrhyw sylwadau ar y ddogfen hon ar y ffurflenni a ddarperir drwy e-bost at planningpolicy@blaenau-gwent.gov.uk neu drwy ysgrifennu at:

Tîm Cynlluniau Datblygu

Y Ganolfan Ddinesig

Glynebwy

NP23 6XB


1.14 Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan y Tîm Cynlluniau Datblygu drwy e-bost (planningpolicy@blaenau-gwent.gov.uk) neu dros y ffôn (01495 355538). Sylwch fod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â materion a phynciau a drafodir yn y Strategaeth a Ffefrir ac nid yw'n gyfle i wneud sylwadau manwl ar Safleoedd Ymgeisiol unigol. Dylai'r holl sylwadau ymwneud â'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys ar ddiwedd pob adran yn y Strategaeth a Ffefrir, sydd wedi'u cynllunio i'ch cynorthwyo gyda'ch cynrychiolaeth.

2.0 CYD-DESTUN

Cyd-destun Blaenau Gwent

2.1 Mae lleoliad Blaenau Gwent yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, 20 milltir i'r gogledd o Gasnewydd ac 20 milltir i'r Gogledd-ddwyrain o Gaerdydd yn cynnig cyfleoedd i elwa o Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae Blaenau Gwent yn cwmpasu ardal o tua 10,900 hectar ac mae ganddi boblogaeth amcangyfrifedig o 69,700 (2018). Mae ganddi un o'r dwyseddau poblogaeth uchaf yng Nghymru gan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth wedi'i chanoli mewn 23% o'r ardal; ym mhrif aneddiadau Glynebwy; Tredegar; Brynmawr/Nant-y-glo/Blaenau; ac Abertyleri (gan gynnwys Cwmtylleri a Six Bells). O ganlyniad, nodweddir Blaenau Gwent gan gysylltiad agos rhwng cymunedau trefol poblog (sy'n aml yn llinellol) a thractau mawr o gefn gwlad agored.

Cynllun Cyd-destun Anheddiad



2.2 Mae tarddiad Blaenau Gwent yn gorwedd yn yr ystod eang o adnoddau lleol a naturiol ar gyfer gwneud haearn a dur. O ganlyniad, daeth diwydiant trwm i lenwi llawer o dri phrif gymoedd Sirhywi, Ebwy Fach ac Ebwy Fawr. Er bod y diwydiant glo wedi dirywio yn y 1970au a'r 1980au, roedd y diwydiant dur yn dal yn gyflogwr mawr hyd nes i waith dur Glynebwy gael ei gau yn 2002, gan arwain at golli nifer fawr o swyddi. Mae'r sector gweithgynhyrchu a dyfodd o amgylch y diwydiannau hyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o economi Blaenau Gwent heddiw.

2.3 Tynnir sylw at golli'r diwydiannau glo a dur gan leihad yn y boblogaeth. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf, mae poblogaeth yr ardal wedi sefydlogi, er bod pobl yn parhau i adael yr ardal i ddod o hyd i dai a chyflogaeth mewn mannau eraill. Ar hyn o bryd mae 49% o drigolion sy'n gweithio ym Mlaenau Gwent yn cymudo y tu allan i'r fwrdeistref i weithio ac mae pellteroedd cymudo wedi cynyddu.

2.4 Arweiniodd twf economaidd a phoblogaeth gynnar a chyflym at ehangiad ffisegol mawr gyda thai teras trwchus wedi eu hadeiladu yn agos i weithleoedd ar hyd lloriau'r dyffryn neu'n closio at ochrau'r dyffryn. Mae'r tai teras cyn-1919 hyn yn ffurfio 52% o'r stoc dai presennol (Cyfrifiad 2011).

2.5 O ganlyniad i golli diwydiannau trwm, mae llawer o'r safleoedd blaenorol hyn wedi elwa o gynlluniau adfywio trefol. Er enghraifft, mae ailddatblygu hen safle'r gwaith dur (a adwaenir fel y Gwaith) yn mynd rhagddo'n dda gyda chwblhau ysbyty, parth dysgu, canolfan hamdden newydd ac estyniad i gyswllt rheilffordd Glynebwy o Barcfordd Glynebwy i dref Glynebwy.

2.6 Gwelwyd gwelliant dramatig yn y diraddio amgylcheddol a'r llygredd a oedd yn sgil-gynhyrchion diwydiannu cyflym. Mae'r dirwedd wedi newid – mae tomenni sbwriel a arferai fod yn dominyddu'r cymoedd wedi cael eu dileu neu eu tirlunio.

2.7 Mae'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau wedi newid. Mae dylanwad technoleg wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl yn siopa, yn cyfathrebu ac yn mwynhau eu hunain ac yn elwa ar wasanaethau fel iechyd, gofal ac addysg. Bu pwysau sylweddol ledled y byd hefyd gyda ffactorau fel twf poblogaeth a dibyniaeth ar danwyddau ffosil yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd. Mae'r Newid yn yr Hinsawdd yn fygythiad i iechyd, economi, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru.

Cyd-destun Rhanbarthol

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

2.8 Nod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yw datblygu a hyrwyddo De-ddwyrain Cymru fel lle gwyh i fyw, gweithio a chynnal busnes. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o £1.2 biliwn yn datgloi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys y deg awdurdod lleol yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Casnewydd a Blaenau Gwent. Ym mis Mai 2018, cytunwyd ar Gynllun Busnes Strategol pum mlynedd i ysgogi'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl gan bob un o'r 10 awdurdod lleol sy'n bartneriaid, ac mae'r cynllun yn nodi amcanion strategol rhanbarthol y CCR sef:

- Ffyniant a Chyfle – meithrin gallu unigolion, cartrefi, y sector cyhoeddus a busnesau i ymateb i heriau a manteisio ar gyfleoedd, gan greu economi fwy cynhyrchiol;
- Cynhwysiant a Chydraddoldeb – economi fywiog a chynaliadwy sy'n cyfrannu at lesiant ac ansawdd bywyd y bobl a'r Cymunedau yn y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol; a
- Hunaniaeth, Diwylliant, Cymuned a Chynaliadwyedd – ffurfio hunaniaeth glir ac enw da fel Dinas-Ranbarth ar gyfer masnach, arloesedd ac ansawdd bywyd.

Awdurdodau Cynllunio Cyfagos


2.9 Mae Cyngor Sir Fynwy (CS), Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBS) a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn adolygu eu cynlluniau datblygu lleol ar hyn o bryd. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y blaen yn y broses wrth iddynt ymgynghori ar eu Strategaeth a Ffeirir ym mis Gorffennaf – Awst 2019. Mae amserlenni CS Fynwy a CBS Torfaen yn weddol gyson â rhai Blaenau Gwent gan fod disgwyl i bawb gyhoeddi eu Strategaeth a Ffeirir ym mis Hydref/Tachwedd 2019. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dechrau paratoi Cynllun Newydd cyn bo hir. Mae CBS Blaenau Gwent wedi ymrwmo i gydweithio â'r awdurdodau cyfagos ac mae nifer o ddarnau o dystiolaeth ar y cyd wedi'u cynhyrchu, gyda rhagor o ymchwil ar y cyd wedi'i gomisiynu ar hyn o bryd. Mae pob awdurdod cyfagos wedi mynychu'r ymgysylltu cyfranogiad cyn-adneuo a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar y CDLIN sy'n dod i'r amlwg.

Cyd-destun Deddfwriaethol

2.10 Paratowyd y Strategaeth a Ffeirir yng nghyd-destun sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer y CDLIN sy'n dod i'r amlwg. Darperir crynodeb isod er gwybodaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.11 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ymhellach yn awr ac yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sef dyletswydd ar gyrfff cyhoeddus i "weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain". Yn sail i'r Ddeddf mae saith nod 'llesiant', y mae'n rhaid i gyrfff cyhoeddus weithio i'w cyflawni:



2.12 Dangosir ystyriaeth briodol i'r nodau hyn a'r egwyddor datblygu cynaliadwy ehangach ar bob cam o'r broses o baratoi'r cynllun drwy'r pum ffordd o weithio a gynhwysir yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried cyfranogiad, cydweithredu, integreiddio, atal a ffactorau cydbwysu hirdymor yn y broses benderfynu, y mae pob un ohonynt wedi ffurfio a byddant yn parhau i ffurfio rhan annatod o ddatblygiad y CDLI. Bydd pob polisi strategol yn cysylltu'n agos â'r nod(au) sy'n ymwneud fwyaf â'i ddiben a'i weithrediad, ac yn cyfeirio ato, gyda phwyslais ar sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mwyaf posibl i sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

2.13 Amlinellir asesiad o gydweddoldeb amcanion y CDLIN yn erbyn Deddf WCFG a nodau ac amcanion y Cynllun Llesiant Lleol yn y Ddogfen Gefnogi Gweledigaeth ac Amcanion.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.14 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol, gan gynnwys cryfhau'r dull cynllunio sy'n cael ei arwain gan gynllun, drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynllun Datblygu Strategol (CDY), a drafodir yn fanylach isod.

2.15 Mae'r FfDC yn fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru a hwn fydd y cynllun datblygu cenedlaethol i Gymru a bydd yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol. Bydd yr FfDC yn:-

- nodi lle y mae angen twf a seilwaith o bwys cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio

- yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol ei chyflawni;
- rhoi cyfeiriad i CDSau a CDLLau a helpu i benderfynu ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol;
- cyd-eistedd â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n amlinellu polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- cefnogi strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu darparu drwy'r system gynllunio; a
- cael ei adolygu bob 5 mlynedd.

2.16 Mae rhagor o wybodaeth am y FfDC drafft i'w gweld isod.

2.17 Bwriedir i CDSau ddarparu fframwaith gofodol rhanbarthol ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn rhanbarth diffiniedig yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, mae Blaenau Gwent yn ffurfio rhan o Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae cytundeb cyffredinol y bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel sail ar gyfer ôl troed CDS De-ddwyrain Cymru (ac eithrio'r BBNP). Bydd hyn yn caniatáu i faterion sy'n fwy na rhai lleol, megis tai a seilwaith, sy'n torri ar draws ffiniau awdurdodau cynllunio lleol, gael eu hystyried mewn ffordd gynhwysfawr. Er bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â CDLL, bydd cydweithio'n digwydd ar yr un pryd gydag awdurdodau cyfagos a'r rhanbarth ehangach i baratoi CDS. Rhennir sylfaen dystiolaeth ar y cyd hefyd lle bynnag y bo'n bosibl i'r perwyl hwn.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.18 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae'n cynnwys gwell dyletswydd bioamrywiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Deddf Teithio Llesol (Cymru), 2013

2.19 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) yw hyrwyddo cerdded a beicio fel dull deniadol o deithio ar gyfer teithiau pwrpasol (h.y. i gael gwaith, ysgol neu siopau a gwasanaethau). Mae'n ceisio sicrhau trawsnewidiad parhaol o'r ffordd y cynllunnir datblygiadau i ymgorffori seilwaith cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf yn ogystal ag annog newid ymddygiad yn y tymor hir.

Cyd-destun Polisi

2.20 Paratowyd y Strategaeth a Ffefrir yng nghyd-destun ystod eang o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau ar ystod o raddfeydd gofodol. Ceir crynodeb o rai o'r dogfennau allweddol isod er hwylustod.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10, 2018

2.21 Mae Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW10) yn nodi'r polisiau cynllunio defnydd tir a'r nodau datblygu cynaliadwy trosfwaol ar gyfer Cymru, wedi'u diwygio i gyfrannu at nodau llesiant statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae PPW10 yn gofyn am ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried mai'r dull gweithredu a arweinir gan gynllun yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio. Mae PPW10 yn canolbwyntio'n gryf ar hybu creu lleoedd, a ystyrir yn allweddol er mwyn sicrhau lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynus. Ystyrir bod creu lleoedd yn ddull hollstaidd sy'n "ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau." (PPW10, 2018, t. 16).

2.22 Er mwyn llywio'r strategaeth ofodol, mae PPW10 yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu "gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol." (PPW10, 2018, Para 3.38). Pwysleisir yn glir y cysylltiad rhwng nifer y cartrefi sydd i'w darparu a'r cyfleoedd gwaith disgwylidig, a lleoliad unrhyw ddatblygiad newydd mewn perthynas â seilwaith presennol neu arfaethedig. Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r angen i deithio, lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat a chynyddu'r cyfleoedd i feicio, cerdded a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Ystyrir mai cynlluniau datblygu yw'r "prif gyfrwng i integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth" (PPW10, 2018, para. 4.15).

2.23 Mae PPW10 yn pennu proses chwilio sydd wedi'i diffinio'n dda i nodi tir datblygu. Dylai safleoedd cynaliadwy sydd eisoes wedi'u datblygu a/neu sy'n cael eu tanddefnyddio mewn aneddiadau presennol gael eu hadolygu gyntaf cyn ystyried safleoedd tir glas addas, cynaliadwy o fewn neu ar ymyl aneddiadau. Yn y naill achos neu'r llall, "dylid hyrwyddo cydbwysedd cyffredinol rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd er mwyn lleihau'r angen i gymudo o hirbell." (PPW10, 2018, para. 3.44). Mae cryn bwys ynghlwm wrth ddatblygu lleoedd gweithgar a chymdeithasol ar ffurf cymunedau cydlynus â chysylltiadau da.

Drafft Ymgynghori Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 (LIC, Awst 2019)

2.24 Mae'r drafft Cynllun Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn nodi 11 canlyniad sydd, gyda'i gilydd, yn ddatganiad o ble mae Cymru am fod ymhen 20 mlynedd. Nod y FfDC yw datblygu:

Cymru lle mae pobl yn byw ...

1. a gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn llefydd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau unigryw sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

5. a gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws ac yn sbardun ar gyfer twf cynaliadwy
6. mewn mannau lle mae ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hyrwyddo
7. mewn mannau lle mae teithio'n gynaliadwy
8. mewn mannau â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn mannau sy'n gynaliadwy yn rheoli eu hadnoddau naturiol ac yn lleihau llygredd
10. mewn mannau ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn mannau sy'n cael eu datgarboneiddio

2.25 Mae'r FfDC drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Dwf a datblygiadau newydd fod yn y lle cywir, wedi'u cyflawni yn y ffordd gywir ac yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hadnoddau naturiol er mwyn cyflawni canlyniadau'r FfDC. Mae tair elfen i'w strategaeth ofodol:

- ble yng Nghymru y dylid canolbwyntio twf;
- sut y dylid cynllunio twf; a
- sut y dylem bweru a chynhesu lleoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy.

2.26 O dan yr adran, "Lle bydd Cymru'n tyfu", mae Blaenau Gwent yn **ardal dwf** 'y Cymoedd', er nad yw wedi'i nodi fel canolfan ranbarthol i ddarparu ar gyfer twf.

2.27 O dan yr adran, "sut y dylid cynllunio twf", ffocws y polisi yw cyflawni **twf trefol cynaliadwy mewn trefi a dinasoedd sy'n gywasgedig ac yn gogwyddo o amgylch canolfannau trefol a rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol integredig**. Hyrwyddir dwysedd uwch a datblygiad defnydd cymysg ar safleoedd sydd â mynediad da i ganolfannau trefol a chanolfannau trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gorsafoedd Metro newydd a gwell. Mae'r FfDC hefyd yn annog cyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus newydd o raddfa sylweddol i'w lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd. Rhaid adolygu tir sy'n eiddo cyhoeddus i nodi safleoedd posibl i'w datblygu, gan gynnwys ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg a thai fforddiadwy i gefnogi'r broses o greu lleoedd cynaliadwy. Mae tai fforddiadwy hefyd yn flaenoriaeth ac mae'n ofynnol i CDLLau gynnwys targedau sy'n seiliedig ar anghenion tai rhanbarthol a lleol, nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac archwilio pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae pwyslais ar gynyddu signal ffonau symudol a symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn gan gynnwys creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyflym. Rhoddir pwyslais hefyd ar ddiogelu rhwydweithiau ecolegol a chynyddu'r seilwaith gwyrdd i'r eithaf. Dylid dangos y camau cronol a gymerodd tuag at wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol sy'n seiliedig ar natur wrth gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig. Ceir cynllun hefyd i ddatblygu coedwig genedlaethol gyda tharged i gynyddu gorchudd coetir o 2,000 ha y flwyddyn.

2.28 Fel rhan o'r mannau pweru a gwresogi gyda rhwydweithiau ynni adnewyddadwy a gwresogi ardal, gosodir targedau i gynhyrchu 70 y cant o'r trydan a ddefnyddir gan ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae hefyd yn cynnwys targedau ar gyfer perchenogaeth leol ar

rywfaint o'r ynni hwn. Mae'r FfDC drafft yn nodi dull clir sy'n seiliedig ar oleuadau traffig ar gyfer ei bolisi ar brosiectau ynni adnewyddadwy gwynt a solar ar raddfa fawr. Mae Glas yn feysydd â blaenoriaeth o ran Ynni Solar a Gwynt lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygu a lle mae'r egwyddor o newid tirwedd yn cael ei derbyn. **Mae rhan sylweddol o Flaenau Gwent mewn ardal flaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar a Gwynt. Mae FfDC hefyd yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ardal ac, yn yr achos hwn, ni nodir unrhyw beth ym Mlaenau Gwent.**

2.29 Mae FfDC yn nodi strategaethau ar gyfer y tri rhanbarth yng Nghymru. **Mae Blaenau Gwent yn rhanbarth y De-ddwyrain. Yma, mae ffocws y twf yn canolbwyntio ar Gaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.** Mae Caerdydd yn bwriadu cadw ac ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid. Mae Casnewydd yn ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol ac mae'r ddogfen bolisi newydd hon yn dyheu am weld y ddinas yn chwarae rôl strategol gynyddol. **Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi adfywio a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal Blaenau'r Cymoedd er mwyn cynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.** Mae amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru yn nodi angen am 71,200 o gartrefi ychwanegol tan 2038 a thros y pum mlynedd gychwynol (2018/19 i 2022/23) dylai 48% o'r angen ychwanegol fod yn dai fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gall Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol gael eu seilio arnynt a dylid eu hystyried ar y lefel ranbarthol ac nid ar sail yr awdurdodau cynllunio lleol unigol. Nodir Llain Las o amgylch Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth. Bydd y twf yn canolbwyntio ar leoedd sydd â chysylltiadau da â theithio llesol a chludeiant cyhoeddus. Dylai tir sy'n agos at orsafoedd Metro fod yn ganolbwyntio i ddatblygiad. Ceir cynlluniau ar gyfer twf maes awyr Caerdydd er mwyn cynyddu capasiti a gwella cysylltiadau trafndiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd ac mae'n ofynnol i CDLlau ymgorffori ei egwyddorion mewn fframweithiau cynllunio.

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019

2.30 Mae'r cynllun hwn yn gosod y sylfeini i Gymru drosglwyddo i genedl carbon isel; gan nodi dull Llywodraeth Cymru o gynyddu effeithlonrwydd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050. Mae hyn yn hanfodol er mwyn bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gyfrannu drwy hynny at gymdeithas decach ac iachach. Mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llywio camau gweithredu datgarboneiddio Cymru, gan sicrhau cydweithredu ac ymwneud effeithiol â rhanddeiliaid i integreiddio datgarboneiddio, cyfyngu ar effeithiau pellach newid yn yr hinsawdd a gwneud y gorau o bob un o'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

2.31 Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran hwyluso datgarboneiddio. Mae ffocws Polisi Cynllunio Cymru ar greu lleoedd yn annog datblygiadau sydd wedi'u cynllunio'n dda sy'n sicrhau bod gan gymunedau yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt o fewn cyrraedd rhwydd. Mae lluo o flaenoriaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio hefyd yn annog allyriadau carbon is ac yn creu lleoedd y gall pobl fyw ynddynt yr un pryd. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy, cyfyngu ar y defnydd o

danwyddau ffosil a chynnwys egwyddorion teithio llesol (cerdded a beicio) i ddatblygiadau newydd. Yn y pen draw gall seilwaith carbon isel helpu i gynyddu effeithlonrwydd drwy'r ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu a'i drosglwyddo, dyluniad ac adeiledd adeiladau a chludo pobl a nwyddau. Rhaid i bob cynllun datblygu yn y pen draw gefnogi'r nodau datgarboneiddio strategol hyn i hwyluso ynni glân a datblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2018-2022

2.32 Y Cynllun Corfforaethol yw map y cyngor sy'n nodi gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2018-2022. Mae'n amlinellu'n glir yr hyn y gall pobl Blaenau Gwent ei ddisgwyl gan y Cyngor, ond hefyd yr hyn a ofynnir gan ddinasyddion a phartneriaid Blaenau Gwent.

2.33 Gweledigaeth graidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a nodir yn y Cynllun Corfforaethol yw "Treftadaeth Falch, Cymunedau Cryfach, Dyfodol Gwell." Mae cysylltiad annatod rhwng hyn a chynllunio defnydd tir ac felly mae'n allweddol i gyflawni'r CDLIN. Y pum gwerth craidd yw: Balch ac Uchelgeisiol, Ymddiriedaeth ac Uniondeb, Gweithio gyda'n Gilydd, Codi Dyheadau a bod yn Deg a Chyfiawn. Y blaenoriaethau allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n cefnogi datblygu'r CDLIN yw: Cymunedau Cryf ac Amgylcheddol Clyfar; a Datblygu ac Adfywio Economaidd.

Cynllun Llesiant Lleol Blaenau Gwent - Y Blaenau Gwent a Garem (2018-2023)

2.34 Cymeradwywyd Cynllun Llesiant Lleol Blaenau Gwent ym mis Ebrill 2018 ac mae'n weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal dros y 35 mlynedd nesaf.

2.35 Mae'r Cynllun yn amlinellu amcanion ar gyfer gwella llesiant ym Mlaenau Gwent a chw'rdd â dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n ganlyniad i broses helaeth o sgysiau parhaus â'r cyhoedd drwy'r rhaglen ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem, gwaith agos gyda sefydliadau partner a dadansoddiad o'r dystiolaeth i greu darlun manwl o sut olwg sydd ar lesiant a sut y gellir ei wella.

2.36 Datblygwyd y 5 amcan yn y cynllun i adlewyrchu'r ffaith bod Blaenau Gwent eisiau ...

- Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb
- Cymunedau diogel a chyfeillgar
- Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i ddiogelu
- Meithrin llwybrau newydd at ffyniant
- Annog ffyrdd o fyw iach

2.37 Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda yn hanfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy a sicrhau lleoedd cynaliadwy. Bydd y CDLIN yn ffordd anhepgor o wneud y gorau o lesiant trigolion Blaenau Gwent a'i chymunedau; gan sicrhau bod y pum amcan hyn yn cael eu cydbwyso a'u hintegreiddio yng nghraidd y Cynllun, tra'n siapio pob cam o baratoi'r cynllun.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru (Ionawr 2015)

2.38 Mae'r pum awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru (SE), sef Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, wedi datblygu Cynllun Trafnidiaeth Lleol (LTP) ar y cyd.

2.39 Mae LTP yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer trafndiaeth yn ardal Cymoedd y De-ddwyrain ac yn darparu rhaglen tymor byr a thymor hir o ymyriadau i weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn. Mae'r rhaglen tymor byr yn gosod y cynlluniau hynny sy'n flaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf hyd at 2020. Mae'r rhaglen tymor hwy yn nodi dyheadau hyd at 2030.

2.40 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn canolbwyntio ar dargedu buddsoddiad mewn trafndiaeth a fydd yn cefnogi meysydd blaenoriaeth canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi ledled Cymru, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y Rhanbarthau Dinesig, yr Ardaloedd Menter a'r ardaloedd twf lleol;
- Lleihau anweithgarwch economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i safleoedd cyflogaeth ledled Cymru;
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gall gwasanaethau trafndiaeth effeithiol a fforddiadwy ei wneud i drechu tlodi a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliannau o ran hygyrchedd ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig; ac
- Annog pobl i deithio'n fwy diogel, yn iachach ac yn gynaliadwy.

2.41 Mae gan drafnidiaeth berthynas annatod â chynllunio gofodol cynaliadwy bob amser a bydd y CDLIN yn parhau i gysylltu trafndiaeth â'r holl themâu cynllunio strategol. Mae'r rhain yn cynnwys yr economi, cyflogaeth, yr amgylchedd, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gweithgarwch corfforol. Wrth fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn, gellir defnyddio trafndiaeth fel dull o hyrwyddo cydraddoldeb, gwella llesiant a darparu cymdeithas gynhwysol a thecach.

3.0 HERIAU A SBARDUNAU ALLWEDDOL

Heriau

3.1 Nodwyd yr heriau allweddol canlynol er mwyn i'r CDLIN fynd i'r afael â hwy. Dylanwadwyd ar y rhain gan randdeiliaid mewn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, adroddiad adolygu'r Cyngor a dogfennau cefnogi eraill. Yn y digwyddiad ymgysylltu, gwerthuswyd ac adolygwyd yr heriau presennol o ran y CDLI ar gyfer y cynllun mabwysiedig. Mae adroddiad llawn o'r ymgynghoriad ar y Materion a'r Gweithdai Gweledigaeth ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Mae papur cefndir ar y Weledigaeth a'r Amcanion ar gael hefyd.

3.2 Mae'r heriau allweddol wedi'u grwpio o dan benawdau agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n darlunio'r sbectrwm eang o feysydd lle y gall y cynllun effeithio ar newid.

| Economaidd |
|--|
| <p>Her 1: Twf Economaidd Mae'r ardal yn dioddef o lefelau uchel o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd, dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau a chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd cyfyngedig, sydd gyda'i gilydd yn arwain at incymau cartref isel. Un o'r heriau allweddol i'r ardal yw lleihau anghydraddoldebau gyda gweddill Cymru a sicrhau swyddi ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn golygu cynyddu cyfran y swyddi mewn sectorau sydd â rhagolygon twf da, megis technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, technoleg gwybodaeth a seiberddiogelwch, twristiaeth, technolegau cynaliadwy carbon isel a'r economi sylfaen. Yr her yw darparu tir, gwasanaethau ac amgylcheddau a fydd yn galluogi twf economaidd.</p> |
| <p>Her 2: Rolau Newydd ar gyfer canol trefi Mae canol trefi yn dioddef o ganlyniad i newid yn arferion siopa pobl. Un mater allweddol yw bod angen i ganol trefi arallgyfeirio ac ehangu eu cynnig i greu ymwelwyr. Mae angen i ganol trefi gael rolau clir fel nad ydynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Yr her yw darparu dull polisi mwy hyblyg a nodi rolau clir.</p> |
| <p>Her 3: Gwella cyrhaeddiad addysgol a sgiliau Mae cyfran uchel o oedolion heb unrhyw gymwysterau ac mae cyrhaeddiad addysgol yn isel ar y cyfan. Er bod cyrhaeddiad addysgol wedi gwella'n sylweddol, yn ddiweddar, mae angen gwneud mwy yn y maes hwn. Mae gan bobl lefelau sgiliau cyfyngedig ac isel i ennill swyddi o ansawdd da. Yr her yw sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant yn cyd-fynd â'r sectorau twf economaidd a bod y seilwaith yn cael ei roi ar waith er mwyn i bawb allu cael gafael ar gyfleusterau.</p> |
| Cymdeithasol |
| <p>Her 4: Twf y boblogaeth a gwella'r arlwy tai Mae'r ardal wedi sefydlogi ei phoblogaeth, er bod pobl yn dal i adael yr ardal i ddod o hyd i dai a chyflogaeth mewn mannau eraill. Un o'r problemau sy'n ymwneud ag allfudo yw ei fod yn tueddu i fod yn rhagfarnllyd tuag at y rheini sy'n fwy symudol ac economaidd weithgar. Yr her yw darparu tir ar gyfer tai a darparu'r swyddi i gadw pobl yn yr ardal.</p> <p>Mae yna brinder fflatiau, byngalos ac eiddo ar wahân i fodloni gofynion tai. Mae ansawdd y stoc tai preifat presennol yn broblem o ran gofynion byw'n fodern ac effeithlonrwydd yn</p> |

enwedig yn y sector rhentu. Mae fforddiadwyedd yn dal yn broblem. Yr her yw sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys cymysgedd o fathau o dai a deiliadaeth; rheoli nifer yr eiddo gwag; a gwella ansawdd y stoc tai preifat.

Her 5: Creu rhwydwaith o gymunedau wedi'i gysylltu'n dda Mae gallu cael mynediad at wasanaethau, swyddi a marchnadoedd yn ofyniad allweddol er mwyn i unrhyw ardal fod yn llwyddiannus. Mae angen cysylltiadau da o fewn a thu allan i Flaenau Gwent. Yr her yw helpu i ddatblygu rhwydwaith trafndiaeth sy'n gwella cysylltedd o fewn a'r tu allan i Flaenau Gwent. Mae cwblhau deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd a gwella rheilffordd Ebwy yn allweddol.

Mae Blaenau Gwent yn cynnwys nifer o drefi a phentrefi ond dim ond ychydig ohonynt sy'n ddigon mawr i fod yn hunangynhaliol o ran cynnwys ystod a chymysgedd digonol o wasanaethau. O ganlyniad, mae'n hanfodol creu rhwydwaith o aneddiadau i ddarparu lefel gynaliadwy o wasanaethau ar gyfer yr ardal. Mae'r rhwydwaith hwn o aneddiadau hefyd yn rhan allweddol o sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y gellir cael gafael ar wasanaethau lleol a rhanbarthol yn hawdd drwy ddulliau teithio cynaliadwy.

Her 6: Cefnogi Trafndiaeth Gynaliadwy Ar gyfer y teithiau hynny y mae'n rhaid eu gwneud bydd angen i gyfran fwy o lawer fod ar gyfer cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i leihau allyriadau carbon ac yn darparu ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad i gar. Mae gan Flaenau Gwent berchenogaeth ceir isel a gwasanaeth bws nos a Sul gwael. Yr her yw creu rhwydwaith amgylchedd a thrafnidiaeth lle y daw'n ddewis mwy deniadol i gerdded, seiclo neu deithio ar drafndiaeth gyhoeddus.

Hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol Mae angen i bob datblygiad ac adnewyddiad o aneddiadau ystyried pob agwedd ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yno, gan gynnwys diogelwch, iechyd a rhyddid rhag aflonyddwch. Yn benodol, mae gan Flaenau Gwent ddisgwyliad oes isel a niferoedd uchel o bobl â salwch cyfyngus hirdymor. Mae ofn troseddau hefyd yn fater allweddol i breswylwyr. Yr her yw darparu'r seilwaith a chreu amgylcheddau sy'n hybu diogelwch, iechyd a theimlad o lesiant i bawb.

Amgylcheddol

Her 8: Creu lle sy'n cynnal ei amgylchedd gwyrdd Mae Blaenau Gwent yn eistedd ar ben Cymoedd De Cymru ar gyrion Bannau Brycheiniog gyda'i hucheldiroedd dramatig yn y gogledd a chymoedd serth i'r de. Mae'r dirwedd hon yn ased pwysig y mae angen i drigolion ac ymwelwyr ei werthfawrogi. Mae'r amgylchedd naturiol gyda'i amrywiaeth o fywyd gwyllt yn werthfawr ynddo'i hun ond gall hefyd gyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol yr ardal. Mae newid yn yr hinsawdd a gweithgareddau amharchus yn fygythiad i hyn. Yr her yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch ecosystemau.

Her 9: Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy Mae defnyddio adnoddau ffisegol yr ardal yn gyfrifol yn rhan allweddol o ddyfodol gwell. Yr her yw hyrwyddo'r economi gylchol drwy leihau'r gwastraff a gynhyrchir a gwneud y defnydd gorau o aildefnyddio ac ailgylchu, gan sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darparu cyflenwad digonol o fwynau.

Ansawdd yr amgylchedd Mae llygredd aer a dŵr, sŵn, halogiad tir ac adfeilio wedi hen ddifetha'r ardal ac wedi effeithio ar iechyd a llesiant pobl, ac er bod hyn wedi gwella mewn gwirionedd, mae lle i wella o hyd. Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu bod yr ardaloedd

sy'n wynebu perygl llifogydd yn tyfu. Yr her yw helpu i sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel ac yn iach; a bod y tir hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

Her 11: Dylunio cynaliadwy a darparu ynni adnewyddadwy Mae gan Flaenau Gwent y potensial i gynhyrchu llawer mwy o'i ynni ei hun drwy ddulliau cynaliadwy sy'n lleihau allyriadau carbon. Gallai dyluniad a chynllun yr adeiladau gyfrannu at leihad yn y defnydd o ynni a gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Yn y cyfamser, mae rhywfaint o newid yn yr hinsawdd yn sicr o ddigwydd a bydd angen addasu i hyn wrth ddatblygu'r ardal yn y dyfodol. Yr her yw helpu, drwy'r broses ddatblygu, i gyflawni'r potensial ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Diwylliannol

Her 12: Creu lleoedd gydag ymdeimlad unigryw o hunaniaeth Mae gan Flaenau Gwent leoliad, hanes a threflun nodedig ac mae hyn yn allwedd bosibl arall i drawsnewid yr ardal. Bydd hyn yn golygu gadael y gorau o etifeddiaeth y gorffennol i genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys y dreftadaeth fel cynhyrchydd haearn, glo a dur, y cysylltiadau â mudiad y Siartwyr a man geni Aneurin Bevan. Yr her yw diogelu, gwarchod a gwella'r gorau o'r adeiladau a'r treflun.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o gymeriad, diwylliant a hanes Cymru. Er nad oes gan Flaenau Gwent boblogaeth fawr sy'n siarad Cymraeg fel y'i canfuwyd mewn rhannau eraill o Gymru, yr her yw sicrhau bod y system cynllunio gofodol yn diogelu ac yn gwella diwylliant ac iaith Cymru lle bo hynny'n bosibl.

Sbardunau Allweddol

3.3 Wedi nodi'r heriau allweddol y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu hyd at 2033 ac y mae angen i'r CDLIN fynd i'r afael â hwy, mae'r adran hon yn ceisio nodi'r sbardunau allweddol i wireddu rhai o'r heriau a helpu i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen.

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

3.4 Amcanion economaidd trosfwaol y Fargen Ddinesig yw creu 25,000 o swyddi newydd a throsoledd o £4 biliwn mewn buddsoddiad sector preifat ar draws y rhanbarth. Nodwyd themâu allweddol i ganolbwyntio'r dull gweithredu: Cysylltu'r Rhanbarth; Adfywio a Seilwaith; a Sgiliau a Chyflogaeth. Mae gan y themâu strategol hyn oblygiadau allweddol ar gyfer CDLIN Blaenau Gwent.

3.5 Cysylltu'r Rhanbarth Bydd y strategaeth ddigidol yn helpu i wneud yr ardal yn rhanbarth clyfar, gan sbarduno atebion arloesol ac aflonyddgar i ddenu partneriaeth a buddsoddiad gan y sector preifat, gan gynnwys cysylltedd Cymreig a rhanbarthol, cysylltedd ffibr rhanbarthol a chymunedol, mynediad 5G symudol a mwyhau data agored.

3.6 Prosiect allweddol yw'r prosiect Metro gwerth £738 miliwn, sy'n ceisio ymestyn y rhwydweithiau trafniadaeth i wella mynediad at weithgareddau newydd a phresennol ar gyfer gwaith, hyfforddiant, addysg, diwylliant, manwerthu a hamdden yn Ne-ddwyrain Cymru. Cynigiwyd datblygu cyswllt rheilffordd 3-4 milltir o Abertyleri i Gwm Ebwy Fawr yn

Aberbig fel rhan o'r cynllun. Bydd hyn hefyd yn cynnwys parcio a theithio ar gyfer 100 o gerbydau. Mae cynnydd yn amllder gwasanaethau i 4 yr awr hefyd yn cael ei ymchwilio.

3.7 Canlyniad allweddol y prosiect Metro yw creu seilwaith trafndiaeth integredig fydd yn galluogi amcanion cymdeithasol ac economaidd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddai cyswllt rheilffordd ychwanegol yn Abertyleri ac Aberbig, ar y cyd â gwasanaeth mwy dibynadwy ac aml, yn helpu i wella ffyniant economaidd Blaenau Gwent.

5.10 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei brofi ar sawl ffurf. Mae 'digwyddiadau' nodweddiadol yn cynnwys glawiad mwyfwy dwys, stormydd mwy difrifol, lefelau'r môr yn codi a chynnydd mewn tymheredd ar gyfartaledd. Mae'r rhain yn cael nifer o effeithiau, gan gynnwys fflachlifoedd a difrod stormydd, newidiadau i gynefinoedd tirwedd a bywyd gwylt ac effeithiau cynyddol tymereddau cyfartalog ar iechyd.

5.11 Mae egwyddorion mesurau effeithlonrwydd ynni a darpariaeth ynni adnewyddadwy bellach wedi'u hymgorffori mewn Rheoliadau Adeiladu a bydd newidiadau arfaethedig sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn Hydref 2019 yn ceisio cynyddu effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae angen i'r cynllun datblygu lleol sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried egwyddorion ehangach dylunio cynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn sylweddol. Gall technegau adeiladu goddefol helpu i gyflawni'r egwyddorion hyn drwy ddylunio sy'n gwneud y defnydd gorau o gyfeiriadedd a chysgod i hwyluso ennil solar ac oeri goddefol i optimeiddio'r cysur thermol. Gall ymagweddau polisi o'r fath hefyd helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cynllunio i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

5.12 Bydd y cynllun hefyd yn cefnogi technoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon fel rhan o ddatgarboneiddio ein cyflenwad ynni a bodloni targed Llywodraeth Cymru, sef y dylai 70 y cant o'r trydan a ddefnyddir gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft yn nodi rhannau o Flaenau Gwent fel ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar a Gwynt lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygu a lle mae'r egwyddor o newid tirwedd yn dderbyniol. Bydd hyn ac asesiad o'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru a Phrospectws Ynni Blaenau Gwent (2019), yn llywio'r Cynllun Adneuo o ran nodi meysydd chwilio neu'r potensial ar gyfer mathau penodol o ynni adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon.

5.13 Mae Prospectws Ynni Blaenau Gwent yn nodi'r cyfle i gynigion datblygu gynnwys gwaith i ddatblygu rhwydwaith ynni rhanbarthol ac ehangu rhwydwaith gwresogi ardal y Gweithfeydd.

5.14 Mae gan y system gynllunio rôl i'w chwarae wrth gynllunio i leihau achosion sylfaenol newid yn yr hinsawdd a chynllunio ar gyfer canlyniadau newidiadau yn yr hinsawdd. Dylid lleoli datblygiad newydd i wneud defnydd o'r seilwaith, y gwasanaethau a'r amwynderau presennol, gyda mwy o ddwysedd ar safleoedd defnydd cymysg a safleoedd gyda mynediad at gyfleusterau lleol a chludiant cyhoeddus. Dylid hybu datblygiad tir llwyd, lle y bo'n addas, gan y gall hefyd leihau'r angen i ddatblygu safleoedd tir glas.

5.15 Fel y nodir uchod, un o effeithiau allweddol newid yn yr hinsawdd yw'r perygl o lifogydd a daw hyn â phroblemau yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o lifogydd yn ogystal â dwyster y llifogydd. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Perygl Llifogydd (LIC 2004) yn nodi'r parthau perygl llifogydd fel y nodir yn y TAN. Bydd y wybodaeth hon yn cael dylanwad pwysig ar ble bydd dyraniadau datblygu yn cael eu lleoli, ynghyd â'r math o ddatblygiad, a bydd hefyd yn llywio polisïau ar berygl llifogydd lle gall cynigion datblygu dilynol, ar ffurf ceisiadau cynllunio gael eu hasesu. Dull y Cynllun fydd llywio datblygiad bregus iawn oddi wrth ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, asesu goblygiadau datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill.

5.16 Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (FWMA) wedi sefydlu Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB). Sefydlir y SAB i werthuso a chymeradwyo ceisiadau draenio ar gyfer datblygiadau newydd lle mae gan waith adeiladu oblygiadau o ran draenio, ac i fabwysiadu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb yn unol â'r Ddeddf. Rhaid cael caniatâd SAB ar gyfer dechrau datblygiad a gallai arwain at newid posibl mewn cynlluniau safle a dwyseddau is.

5.17 Bydd Aseiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn cael ei baratoi ar gyfer y Cynllun Adneuo a bydd yn llywio'r broses o nodi ac asesu dyraniadau dilynol.

Canlyniad 2: Darparu cyfleoedd ar gyfer Economi Carbon Isel Ffyniannus a Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau

5.18 Mae'r canlyniad hwn yn cwmpasu elfennau economaidd y strategaeth sy'n rhan bwysig ond sydd hefyd yn ategu'r canlyniadau eraill, sydd gyda'i gilydd yn dod ynghyd i gyflawni strategaeth twf economaidd cynaliadwy. Mae'r adran hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer Twf Economaidd Cynaliadwy, Twristiaeth, Mwynau a Gwastraff.

| Polisi Strategol 4: Cyflogaeth a Sgiliau |
|--|
| <p>Darperir cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy drwy gyfarwyddo datblygu sy'n cynhyrchu cyflogaeth i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, gan gefnogi ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes a sicrhau aliniad gofodol rhwng twf tai a chyflogaeth. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn nodi y dylid cadw 46 ha hectar o dir ar gyfer cyflogaeth a dibenion busnes er mwyn darparu ar gyfer o leiaf 1,500 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun. Cyflawnir hyn drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dyrannu 3-46 hectar o dir at ddibenion cyflogaeth (bydd y dyraniadau safleoedd cyflogaeth arfaethedig sydd eu hangen yn cael eu cadarnhau ar gam Adneuo'r CDLI). 2. Cadw a diogelu'r safleoedd strategol canlynol at ddibenion cyflogaeth: <ol style="list-style-type: none"> a. Y Gweithfeydd, Canolfan Busnes, Glynebwy (3.5 ha); a |

| | |
|---|---|
| <p>b. Coridor Gogleddol Glynebwy, Glynebwy (Rhyd-y-Blew (13.2 ha) a Bryn Derth (10 ha)).</p> | |
| <p>3. Cefnogi datblygiad tir yn agos at yr orsaf Metro arfaethedig yn Abertyleri.</p> | |
| <p>4. Manteisio ar ysgogwyr economaidd allweddol a dyrannu arian ar gyfer Blaenau Gwent ar ffurf dynodiad yr Ardal Fenter, y Cymoedd Technoleg, Tasglu'r Cymoedd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.</p> | |
| <p>5. Nodir rolau cyflogaeth ardaloedd diwydiannol mawr i helpu i arallgyfeirio cyflogaeth a chefnogi'r twf mewn sectorau twf da fel technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, TG a seiberddiogelwch, twristiaeth, technolegau carbon isel cynaliadwy a'r economi sylfaen.</p> | |
| <p>6. Sefydlu seilwaith dysgu o'r radd flaenaf i sicrhau bod trigolion yn ennill y sgiliau y mae arnynt eu hangen i gyfateb i'r sectorau twf economaidd.</p> | |
| <p>7. Cytundebau marchnad lafur lleol yn cael eu negodi gyda datblygwyr i alluogi cyflogaeth leol i sicrhau cyflogaeth a datblygu sgiliau.</p> | |
| Amcanion CDLIN | 1, 2, 5, 6 |
| Deddf WCFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Creu llwybrau newydd i ffyniant. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy. |

5.19 Mae strategaeth y CDLI yn cydnabod, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau economaidd-gymdeithasol difrifol ym Mlaenau Gwent, bod yn rhaid mynd ati mewn ffordd flaengar i ddatblygu tir at ddibenion economaidd. Mae Papur Cefndir yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn nodi bod y CDLI yn dyrannu 3 i 46 ha o dir ar gyfer cyflogaeth a dibenion busnes a fydd yn galluogi darparu o leiaf 1,500 o swyddi newydd ar draws cyfnod y cynllun. Seilir graddfa'r swyddi a ddarperir ar gynlluniau'r ardal fenter (y Cymoedd Technoleg) a chynlluniau Tasglu'r Cymoedd ar gyfer yr ardal ac mae'n ceisio gostwng y gyfradd diweithdra, cynyddu'r gyfradd gweithgarwch economaidd a lleihau nifer y rhai sy'n cymudo allan.

5.20 Mae economi Blaenau Gwent wedi profi newid strwythurol mawr yn symud o fod yn ddibynnol ar ddiwydiannau trwm a oedd yn hanesyddol yn dominyddu'r economi leol. Dylai Blaenau Gwent gefnogi'r twf mewn sectorau twf da megis technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, TG a seiberddiogelwch, twristiaeth, technolegau cynaliadwy carbon isel a'r economi sylfaen. Mae dynodiad ardal fenter Blaenau Gwent yn canolbwyntio'n bennaf ar y deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu.

5.21 Mae'r sylfaen dystiolaeth sylfaenol yn dangos bod lefelau sgiliau a chyrrhaeddiad addysgol wedi gwella ym Mlaenau Gwent. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o gynydd. Dylai'r CDLIN gyfrannu at wella'r seilwaith addysg a sgiliau trwy, lle bo'n briodol, sicrhau drwy gytundebau S106 bod sgiliau a hyfforddiant yn cyd-fynd â'r sectorau twf economaidd a darpariaeth cefnogi seilwaith.

5.22 Bydd y CDLI yn ceisio diogelu safleoedd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y portffolio tir cyflogaeth yn cael ei gadw, yn atal twf economaidd rhag cael ei gyfyngu gan ddiffyg tir ac yn helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth yr economi leol ac ehangach. Fodd bynnag, bydd Papur Cefndir yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn llywio penderfyniadau ar annosbarthiad posibl rhai o'r ardaloedd diogelu cyflogaeth presennol nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn hyfyw, yn addas neu'n ofynnol i ddiwallu anghenion cyflogaeth a nodwyd yn y CDLI Adneuo.

5.23 Mae'r cyfleoedd adfywio ym Mlaenau Gwent yn parhau i gyflwyno cyfleoedd cyflogaeth lleol yn y sector adeiladu. Gallai'r cyfleoedd datblygu ar safleoedd strategol Y Gweithfeydd a Choridor Gogledd Glynebwy ganiatáu i rwymedigaethau cynllunio gael eu defnyddio i sicrhau cyflogaeth leol yn y sector adeiladu sy'n tyfu.

| Polisi Strategol 5: Twristiaeth sy'n Tyfu | |
|---|---|
| Er mwyn sicrhau economi dwristiaeth sy'n tyfu, bydd y Cynllun yn cefnogi: | |
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Atyniadau mawr ar gyfer cyrchfannau a fyddai'n denu niferoedd mawr o bobl i'r ardal ac yn darparu nifer sylweddol o swyddi; 2. Llety o ansawdd uchel, lleoliadau, busnesau, digwyddiadau, atyniadau, twristiaeth ddiwylliannol, menter wledig, twristiaeth gweithgareddau a sector bwyd a diod amrywiol a deniadol; a 3. Sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | |
| Mae darparu datblygiadau yn osgoi unrhyw effeithiau annerbyniol, andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder, ac fe'u cefnogir gan ddarpariaeth seilwaith ddigonol bresennol neu newydd. | |
| Amcanion CDLIN | 1, 2, 5, 6, 11 |
| Deddf WCFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg sy'n Ffynnu |
| LWBP | Creu llwybrau newydd i ffyniant. Diogelu ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy. Creu a Chynnal Cymunedau. |

5.24 Un atyniad cyrchfan mawr fyddai newid y canfyddiad a'r rôl y mae twristiaeth yn ei chwarae yn economi Blaenau Gwent. Gan ei fod wedi'i lleoli'n dda o ran mynediad at gysylltiadau rheilffordd, Ffordd Blaenau'r Cymoedd a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mae potensial ar gyfer atyniad a allai ddenu niferoedd mawr o bobl i'r ardal a darparu nifer sylweddol o swyddi. Mae'r strategaeth hon hefyd yn cydnabod y rôl y gall datblygiadau llai ei gwneud i gefnogi'r economi twristiaeth.

5.25 Mae Strategaeth y CDLI yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth a'r diwydiant twristiaeth i economi'r Fwrdeistref Sirol. Drwy ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal, bydd hefyd yn ein galluogi i gefnogi canol trefi cynaliadwy a bywiog. Bydd y CDLI yn darparu'r fframwaith ar gyfer darparu a diogelu cyfleusterau sydd wedi'u lleoli'n dda ac o ansawdd da, twristiaeth, chwaraeon, hamddena a hamdden, ac i arallgyfeirio twristiaeth yn y Sir. Bydd y CDLI yn ceisio sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cael eu lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch ac nad effeithir yn andwyol ar gymunedau lleol.

5.26 Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ceisio mwyafu potensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol asedau naturiol a diwylliannol y Cymoedd ac mae'n bwysig bod y cysyniad yn cael ei ddatblygu ym Mlaenau Gwent. Bydd cysyniad y Parc yn ein helpu i gynnal y gwelliannau a'r rheolaeth ar ein rhwydwaith hynod weladwy o ucheldiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur, parciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr, treftadaeth ac atyniadau. Y nod yw gwella cysylltiadau o'r ardaloedd hyn i'n trefi.

5.27 Mae gan y system cynllunio defnydd tir rôl allweddol o ran sicrhau bod datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn manteisio i'r eithaf ar y manteision economaidd a chyflogaeth y gall twristiaeth eu cynnig mewn modd cynaliadwy ac mae'n diogelu'r nodweddion hynny yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig y mae twristiaeth yn dibynnu arno. Mae strategaeth y CDLI yn ceisio annog twristiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel yn seiliedig ar amgylchedd naturiol nodedig a gwerthfawr y Fwrdeistref Sirol, ei nodweddion hanesyddol, hunaniaeth unigol ei aneddiadau a'i threftadaeth ddiwylliannol. Mae nifer o safleoedd wedi dod i law ar gyfer cynigion twristiaeth ac mae cynlluniau ar y gweill hefyd i wella'r arlwy twristiaeth yn Safle'r Wyl Arddio yng Nglynebwy.

Polisi Strategol 6: Rheoli Mwynau Cynaliadwy

Bydd Blaenau Gwent yn rheoli ei hadnoddau mwynol mewn ffordd gynaliadwy drwy:

1. Cynnal banc tir o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir drwy gydol cyfnod y cynllun a chyflawni'r dosraniad a nodwyd yn y datganiad technegol rhanbarthol mwyaf diweddar. Bydd hyn yn gofyn am nodi'r ardaloedd a ffeirir ar gyfer gweithio yn y dyfodol mewn perthynas ag estyniad ochrol posibl yn Chwarel Trefil (Calchfaen) a/neu chwarel newydd ar dir i'r De-ddwyrain o'r Cwm (Tywodfaen Pennant);
2. Annog defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o ansawdd uchel a manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer defnyddio agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu fel dewis amgen i adnoddau tir cynradd a enillwyd;

| | |
|--|---|
| <p>3. Diogelu ardaloedd a danseilir gan fwynau nad ydynt yn fwynau ynni o bwysigrwydd economaidd lle y gellid eu gweithio yn y dyfodol i sicrhau nad yw adnoddau o'r fath yn cael eu sterileiddio'n ddiangen gan fathau eraill o ddatblygu;</p> <p>4. Defnyddio parthau clustogi i leihau'r gwrthdaro rhwng datblygiadau mwynau a ffurfiau sensitif o ddatblygiad;</p> <p>5. Sicrhau nad yw cynigion mwynau yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd ac ar amwynder; a</p> <p>6. Sicrhau adferiad priodol ac ar ôl defnydd ar gyfer safleoedd mwynau sy'n gallu cyflawni manteision amgylcheddol a chymunedol penodol.</p> | |
| Amcanion CDLIN | 5, 7, 8 |
| Deddf WBFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Creu llwybrau newydd i ffyniant. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Gwneud y mwyaf o Ddiogelu'r Amgylchedd a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol. Gwneud y defnydd gorau o Adnoddau. Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy. |

5.28 Mae mwynau yn adnodd cyfyngedig a dim ond pan fyddant yn digwydd y gellir eu gweithio. Mae gan Flaenau Gwent amrywiaeth o adnoddau mwynol sydd i'w gweld yn fras yn y lleoliadau canlynol: brigiad o Galchfaen yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol; brigiadau o lo ar draws yr ardal ganolog; ac adnodd helaeth o Dywodfaen Pennant yn y De. Caiff adnoddau mwynau nad ydynt yn ynni eu diogelu rhag mathau eraill o ddatblygiadau parhaol drwy nodi ardaloedd diogelu mwynau ar sail Mapiau Adnoddau Arolwg Daearegol Prydain (BGS). Ni nodwyd unrhyw amgylchiadau unigol sy'n golygu bod angen diogelu unrhyw adnodd glo sylfaenol.

5.29 Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) (2018) yn nodi bod gan Flaenau Gwent 6 blynedd o gyflenwad o agregau ar ddiwedd 2018. Mae'r caniatâd cynllunio presennol ar gyfer chwaraela calchfaen yn Chwarael Trefil hefyd yn dod i ben yn 2024. Yn hynny o beth, nid oes cyflenwad digonol o fwynau ac felly mae'n rhaid i'r cynllun naill ai wneud dyraniad neu nodi'r ardaloedd a ffefrir er mwyn cyflawni cyflenwad 10 mlynedd ar ddiwedd cyfnod y Cynllun.

5.30 Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru (RTS) (2014) yn nodi'r cyfraniad y dylai pob awdurdod lleol cyfansoddol ei wneud tuag at fodloni'r galw rhanbarthol am agregau. Mae RTS diwygiedig yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020. Bydd yr RTS diwygiedig yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw drosraniadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cyflenwad digonol o greigiau wedi'u malu, gan gynnwys y lleiafswm a argymhellir yn genedlaethol o 10 mlynedd, ar gael am gyfnod cyfan y CDLIN. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud darpariaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i nodi adnoddau posibl. Cyflwynwyd dau safle ymgeisiol; un yn chwarael Trefil (Calchfaen) a thir arall i'r De-ddwyrain o Cwm (Tywodfaen

Pennant). Bydd angen ystyried dyrannu neu nodi ardaloedd a ffefrir yn un neu'r ddau o'r safleoedd hyn yn y CDLIN.

5.31 Mae'r strategaeth hefyd yn ymwneud â hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddewisiadau amgen i fwynau sy'n digwydd yn naturiol. Mae aildefnyddio ac ailgylchu deunydd adeiladu a dymchwel a gwastraff diwydiannol nid yn unig yn lleihau faint o wastraff a gynhyrchir ond hefyd yn diogelu adnoddau prin ac yn lleihau difrod amgylcheddol. Mae'r RTS presennol a datblygol yn gwneud lwfans ar gyfer y ffynhonnell hon cyn pennu'r cyfraniad y mae angen i bob awdurdod lleol cyfansoddol ei wneud.

5.32 Nod y strategaeth yw cydbwysu'r angen i ddiogelu adnoddau mwynol o bwysigrwydd cenedlaethol a sicrhau eu bod yn cael eu cloddio'n briodol yn erbyn effaith bosibl datblygiad o'r fath ar feddianwyr preswyl, y tirlun, ac ar safleoedd o natur ddiddordeb cadwraethol neu ddaearegol. Mae'r rhain yn ystyriaethau allweddol a fydd yn sail i ystyriaeth o'r ddau safle ymgeisiol yn Chwarel Trefil a Thir i'r Dwyrain o Cwm.

5.33 Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio am fwynau, mae angen ystyried sicrhau adferiad priodol ac ar ôl defnydd a all gyflawni buddiannau amgylcheddol a chymunedol penodol.

| Polisi Strategol 7: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | |
|--|--|
| Er mwyn rheoli gwastraff yn gynaliadwy bydd y Cynllun yn: | |
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Sicrhau bod pob cynnig yn cydymffurfio ag egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff gan gefnogi'r rhai sy'n symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth; 2. Creu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau adfer a gwaredu gwastraff sy'n ystyried y cysyniad gosod addas agosaf a'r egwyddorion hunangynhaliath; 3. Annog darparu cyfleusterau trin mewn adeiladau ar safleoedd cyflogaeth B2 gyda digon o adeiladau a thir gwag ar gael, yn amodol ar y diffyg effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd neu ar amwynder defnyddwyr cyfagos a chymunedau na ellir eu lliniaru; 4. Cefnogi cydleoli cyfleusterau er mwyn gallu datblygu rhwydweithiau gwres lle bo hynny'n briodol; a 5. Cefnogi'r economi gylchol drwy annog y broses o leihau'r gwastraff a gynhyrchir a'r defnydd o ddeunyddiau gwastraff wedi'u haildefnyddio a'u hailgylchu wrth ddyllunio, adeiladu a dymchwel. | |
| Amcanion CDLIN | 4, 5, 7, 8 |
| Deddf WBFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Diogelu ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol. Creu llwybrau newydd i ffyniant. |

| | |
|--|--|
| <p>Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10)</p> | <p>Gwneud y mwyaf o Ddiogelu'r Amgylchedd a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol. Gwneud y defnydd gorau o Adnoddau. Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy.</p> |
|--|--|

5.34 Mae gan y System Gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran hwyluso'r gwaith o reoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff wedi'i nodi yn – Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010) a'r Cynlluniau Sector cysylltiedig. Yr hierarchaeth gwastraff sy'n darparu'r man cychwyn ar gyfer ystyried cynigion rheoli gwastraff. Mae atal ac aildefnyddio gwastraff ar frig yr hierarchaeth, wedi'i ddilyn gan baratoi i aildefnyddio, ailgylchu, adfer ac yn olaf gwaredu. Hyd y gellir, dylai gwastraff gael ei yrru i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

5.35 Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIM) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau ac yn dynodi symudiad i ffwrdd oddi wrth leihau'r dewisiadau gwaredu ac adfer ar gyfer trin gwastraff a symud tuag at ffynhonnell cyfaint uchel casglu ar wahân wedi'i ddilyn gan ailbroseu yn ogystal â pharatoi i aildefnyddio ac atal. Dim ond mewn perthynas â gwastraff trefol cymysg (a gwmpesir gan erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig) y bydd y cysyniad o 'Osodiad Priodol Agosaf' ac egwyddor hunangynhaliath yn gymwys.

5.36 Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer De-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2016 ac mae'n dod i'r casgliad nad oes angen safleoedd tirlenwi ychwanegol yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn dweud y dylai unrhyw gynnig newydd ar gyfer trin gwastraff preswyl ymhellach gael ei asesu'n ofalus i sicrhau nad yw darpariaeth ormodol yn digwydd yn y rhanbarth. Fel y cyfryw, nid oes angen penodol am gyfleusterau rheoli gwastraff o'r fath wedi'i nodi ar lefel ranbarthol ar hyn o bryd.

5.37 Ar lefel fwy lleol, mae CBS Blaenau Gwent yn aelod o Cwm Yfory, partneriaeth caffael gwastraff gweddilliol, sydd wedi ymrwymo i gontract 25 mlynedd gyda Viridor Waste Management Ltd i drin gwastraff gweddilliol trefol yn eu cyfleuster troi gwastraff yn ynni ym Mharc Trident yng Nghaerdydd. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi hefyd ar gyfer canolfan ailgylchu gwastraff cartref ychwanegol a fydd yn gwasanaethu trigolion yn hanner deheuol y Fwrdeistref Sirol ac ni ystyrir unrhyw seilwaith rheoli gwastraff ategol pellach, fel gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, yn angenrheidiol i ymdrin â gwastraff trefol. Yn nhermau gwastraff organig mae CBS Blaenau Gwent wedi dyfarnu contract 15 mlynedd gydag opsiwn ar gyfer estyniad 3 blynedd.

5.38 Er nad oes unrhyw safleoedd wedi'u cyflwyno ar gyfer safleoedd gwastraff yn y dyfodol i wasanaethu'r sectorau masnachol a diwydiannol, mae gan y Fwrdeistref ymholiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth cyffredinol presennol. Ystyrir safleoedd o'r fath yn fras yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladau, oherwydd eu tebygrwydd â golwg adeiladau diwydiannol, y math o brosesau diwydiannol dan sylw a natur yr effeithiau. Fel y cyfryw, ystyrir bod safleoedd cyflogaeth sy'n caniatáu defnyddiau B2 fel y safleoedd cyflogaeth cynradd ac uwchradd a nodwyd yn y cynllun presennol yn lleoliadau priodol ar gyfer cyfleusterau

rheoli gwastraff newydd. Bydd priodoldeb unrhyw gynnig gwastraff newydd nas rhagwelwyd yn agored i leihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac osgoi risgiau i iechyd pobl; diogelu ardaloedd o dirwedd ddynodedig a chadwraeth natur; a diogelu amwynder preswylwyr a defnyddiau tir a defnyddwyr eraill. Bydd angen Asesiad Cynllunio Gwastraff ar gyfer pob cais am gyfleuster gwastraff a ddosberthir yn gyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cynnig o'r fath yn cael ystyriaeth briodol o'r egwyddorion sydd yn Nodyn Cyngor Technegol 18: Gwastraff (LIC 2017). Dylai'r asesiad fod yn briodol i raddfa natur a maint y datblygiad a gynigir.

5.39 Mae'r Cyngor wedi symud o waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi i gasglu ar wahân i'r tarddiad mawr ac yna ailbroseu yn ogystal â pharatoi i aildefnyddio ac atal. Mae'r ffigurau ailgylchu diweddaraf ar gyfer Blaenau Gwent yn dangos bod y Cyngor wedi cyrraedd y targed o 58% a bennwyd ar gyfer 2016 ond bod ganddo welliannau i'w gwneud er mwyn cyrraedd y targed o 64% erbyn 2021. Fel y nodwyd uchod, mae caniatâd cynllunio ar gael ar gyfer canolfan ailgylchu gwastraff cartref yn ne'r Fwrdeistref er mwyn helpu i gyflawni'r gofyniad hwn.

5.40 Dylai lleoliad ynni o weithfeydd gwastraff ystyried lleoli mewn perthynas agos â defnyddwyr ynni. Yn yr un modd, dylai defnyddwyr ynni'r safle ddewis lleoli yn agos at ynni gweithredol sy'n bodoli eisoes o gyfleusterau gwastraff. Mae hyn yn galluogi datblygiadau i gael budd o greu gwres.

5.41 Dylid ystyried atal gwastraff a dulliau o annog aildefnyddio ac ailgylchu ar gam cynnar fel rhan o'r broses o ddewis deunyddiau a dylunio. Dylai'r cydbwysedd rhwng y deunyddiau a gloddiwyd fel rhan o unrhyw ddatblygiad gael ei asesu i osgoi creu gwastraff. Bydd hyn yn cefnogi'r economi gylchol ac yn cyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr.

Canlyniad 3: Darparu Cymunedau â Chysylltiadau Da, Egniöl ac Iach

5.42 Mae'r canlyniad hwn yn ceisio darparu cymunedau egniöl ac iach sydd â chysylltiadau da i bob sector o gymdeithas. Cyflawnir hyn drwy alluogi pawb i gael mynediad i dai, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden fforddiadwy o ansawdd da. Mae'r adran yn nodi'r polisiâu ar Dai, Sipsiwn a Theithwyr, Canol Trefi, Trafnidiaeth, Seilwaith ac Iechyd a Llesiant.

Polisi Strategol 8: Cyflenwi Cartrefi

Sicrhau bod yr angen lleol am dai yn cael ei ddiwallu a bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu creu:

1. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i 2,115 o gartrefi gyflawni gofyniad tai o 1,755 o gartrefi, y bydd o leiaf 478 ohonynt yn fforddiadwy.
2. Er mwyn bodloni hyn, mae lwfans ar gyfer cyflawniadau hyd yma, ymrwymadau sy'n bodoli eisoes, cyfraniadau ar hap o safleoedd bach a mawr yn gwneud cyfanswm o 1,282 o gartrefi yn gadael 833 o gartrefi i'w dyrannu yn y Cynllun.

| Haen Anheddiad | Cyfanswm o gyflawniadau, ymrwymadau, ar hap bach a mawr | Dyfarniadau defnydd cymysg strategol (a nodwyd) | Nifer y cartrefi sydd i'w dyrannu | CYFANSWM |
|--|---|---|-----------------------------------|-------------|
| Haen 1: Glynebwy | 677 | 675 (320*) | 0 | 952 (+45) |
| Haen 2:Tredegar | 206 | 0 | 217 | 423 |
| Haen 2:Brynmawr / Nantyglo/ Blaenau | 231 | 220 | 0 | 423 (+28) |
| Haen2: Abertyleri (gan gynnwys Cwmtyleiri a Six Bells) | 62 | 0 | 149 | 211 |
| Haenau 3,4 a 5 | 106 | | | 106 |
| | 1,282 | 540* | 366 | 2,115 (+73) |

* yn dynodi rhif i'w gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun (ceir dadansoddiad pellach o'r tabl hwn yn Atodiad 6 a rhoddir esboniad pellach yn y Papur Cefndir Cyflenwad Tai).

3. Wrth ddyrannu safleoedd tai rhoddir blaenoriaeth i dir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn aneddiadau presennol, yna tir a ddatblygwyd yn flaenorol ar ymyl aneddiadau presennol ac yna safleoedd tir glas o fewn neu ar ymyl aneddiadau;

4. Darperir amrywiaeth o safleoedd o feintiau i gefnogi hunan-adeiladu, a'r adeiladwyr tai bach a chanolig; a

5. Cefnogir cynigion i aildechrau defnyddio eiddo gwag.

| | |
|---|---|
| Amcanion CDLIN | 1, 2, 4, 5, |
| Deddf WCFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Cymunedau diogel a chyfeillgar. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach. Gwneud y defnydd gorau o Adnoddau. Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy. Creu a Chynnal Cymunedau. |

5.43 Mae'r Strategaeth a Ffefrir (Polisi Strategol 1) yn darparu fframwaith ar gyfer darparu 2,115 er mwyn gallu darparu 1,755 o gartrefi ym Mlaenau Gwent dros gyfnod y Cynllun.

5.44 O bwys mawr i'r Strategaeth yw darparu cymunedau cysylltiedig cynaliadwy, felly mae'n rhaid i ddatblygiad gynnwys cymysgedd o fathau o anheddau, meintiau a deiliadaeth. Mae'r Asesiad Marchnad Dai Leol (Mawrth 2019) yn nodi'r angen am 478 o eiddo fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun ac mae'r angen hwn ar gyfer eiddo 1 a 4 gwely. Er mwyn diwallu'r angen, bydd angen nodi nifer o safleoedd fforddiadwy a arweinir gan y

Cynllun. Bydd y Cynllun yn ceisio cynyddu i'r eithaf y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus, lle mae hynny'n ariannol hyfyw.

5.45 Dosberthir y gwaith o Gyflawni'r twf hwn ar draws y fwrdeistref yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi Strategol 1. Mae'r polisi hwn yn darparu'r manylion am ffynhonnell y ddarpariaeth hon a faint o dir sydd ar ôl i'w ddyrannu ym mhob ardal. Gwneir lwfans ar gyfer safleoedd a gwblhawyd, safleoedd sy'n cael eu hadeiladu, safleoedd ar hap mawr a bach (safleoedd sydd fel arfer yn cynnwys ailddefnyddio adeilad neu ddatblygu safleoedd sy'n dod yn wag o fewn ffiniau'r anheddiad); a thir gyda chaniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes a elwir yn Ymrwymadau. Mae ymrwymadau wedi'u disgowntio drwy asesiad safleoedd sy'n eistedd y tu allan i'r cyflenwad tir 5 mlynedd presennol a nodwyd yn y Gyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2019). Nodir manylion y broses hon a gweithrediad yr holl ffigurau hyn ym Mhapur Cefndir Cyflenwad Tai. Dylid nodi, gyda chynnwys y safleoedd strategol arfaethedig, bod gwarged tir yng Nglynebwy a Brynmawr.

5.46 Wrth ystyried pa safleoedd fydd yn cael eu dyrannu yn y CDLIN, dilynir trefn chwilio, gan ddechrau gydag ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen o fewn ffiniau aneddiadau a ddiffinnir gan y CDLI mabwysiedig; ac yna tir llwyd ar gyrion aneddiadau; ac yn olaf ar safleoedd tir glas o fewn ac ar gyrion aneddiadau. Fel y nodwyd eisoes ym Mholisi Strategol 3, anogir datblygiadau i gynnwys dwyseddau uwch ar safleoedd sy'n agos at goridorau trafniadaeth neu ganol trefi, a thrwy hynny leihau'r angen cyffredinol i deithio.

5.47 Er mwyn cynorthwyo hunan-adeiladwyr ac adeiladwyr bach a chanolig lleol bydd amrywiaeth o safleoedd ar gael yn y Cynllun Adneuo. Darperir rhestr o safleoedd bach hefyd a'i ddiweddarau'n flynyddol ochr yn ochr â'r Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

5.48 Er bod nifer yr eiddo gwag yn y Fwrdeistref wedi gostwng mae problem o hyd gydag eiddo gwag hirdymor ac mae cynlluniau ar waith i ailddechrau defnyddio 20-40 y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Er nad yw'r safleoedd hyn yn cael eu cyfrif yn y gofynion tai, byddant yn cyfrannu at ddarparu cartrefi yn y Fwrdeistref ac yn galluogi mwy o hyblygrwydd.

5.49 Bydd y cynllun adneuo yn cynnwys 2 bolisi newydd. Bydd un yn ymdrin â lleoliad a dyluniad cartrefi newydd a bydd yn ceisio mynd i'r afael â safonau lle mewn datblygiadau newydd. Bydd y llall yn mynd i'r afael â thai amlfeddiannaeth sydd wedi dod yn broblem ym Mlaenau Gwent yn ddiweddar.

| Polisi Strategol 9: Sipsiwn a Chrwydriaid | |
|---|---|
| Bydd tir ar gael i ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sydd heb eu diwallu yn y dyfodol. | |
| Amcanion CDLIN | 2 |
| Deddf WBFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal |

| | |
|---|--|
| | Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb. Cymunedau diogel a chyfeillgar. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach. Creu a Chynnal Cymunedau. |

5.50 Yn yr Aseiad Diweddaraf o Anghenion Tai Sipsiwn – Teithwyr (2015), nodwyd angen nas diwallwyd o 12 uned yn y Fwrdeistref. Ers yr amser hwn rhoddwyd dau ganiatâd sy'n werth cyfanswm o 5 uned, gan adael galw am 7 uned arall. Mae hyn yn ychwanegol at y tir sydd eisoes wedi'i nodi yn y CDLI presennol a gafodd ei ystyried yn yr aseiad anghenion. Mae cynlluniau ar waith i osod cyfleusterau modern yn lle'r safle presennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ac i fodloni'r diffyg a nodwyd. Fodd bynnag, cynhelir Aseiad Anghenion Sipsiwn-Teithwyr wedi'i ddiweddarau, ac os oes angen, nodir tir i ddiwallu'r angen ychwanegol hwn yn y CDLIN.

Polisi Strategol 10: Canolfannau Manwerthu a Datblygu

1. Er mwyn cynnal a gwella rhwydwaith o ganol trefi, adolygir yr hierarchaeth manwerthu bresennol a nodir hierarchaeth newydd yn y cynllun adneuo yn seiliedig ar dystiolaeth o Astudiaeth Manwerthu.
2. Er mwyn cefnogi a chynnal canol trefi bydd rolau newydd yn cael eu harchwilio fel a ganlyn:
 - a. Bydd Abertyleri yn archwilio rolau cyflenwol ynghylch diwylliant, hamdden a thwristiaeth;
 - b. Bydd Brynmawr yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu rolau cyflenwol o amgylch twristiaeth a hamdden;
 - c. Bydd Glynebwy yn ehangu ei rôl fel prif ganolfan weinyddol a gwasanaeth y Fwrdeistref; a
 - ch. Bydd Tredegar yn ehangu ei arlwy twristiaeth drwy wneud y mwyaf o fanteision treftadaeth leol.
3. Er mwyn cynnal neu wella egni, bywiogrwydd ac atyniad canol trefi:
 - a. Uwchraddir siopau, swyddfeydd ac adeiladau masnachol eraill lle y bo'n briodol drwy ailwampio ac ailddatblygu;
 - b. Cefnogir cyfleusterau swyddfa manwerthu, hamdden, adloniant a diwylliannol priodol;
 - c. Ceisir cyfleoedd i wella mynediad i ganolfannau adwerthu a masnachol, ac oddi mewn iddynt, drwy bob math o drafndiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio (teithio llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus.
4. O ystyried rôl ddatblygol canol trefi, caiff ffiniau canol y dref a'r ardaloedd manwerthu cynradd eu hadolygu a'u tynnu er mwyn cydnabod yr angen am rywfaint o hyblygrwydd wrth gynnal defnydd a nifer yr ymwelwyr, ac er mwyn gallu cymryd ymagwedd wedi'i theilwra ar gyfer pob Canolfan gan roi sylw i wiriadau iechyd ac

| | |
|---|--|
| uwchgynlluniau. | |
| 5. Os yw'n briodol, bydd tir ar gael i ddiwallu anghenion manwerthu lleol yn y dyfodol. | |
| Amcanion CDLIN | 1, 5, 9, 11, |
| Deddf WBFG | Cymru Lewyrchus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg sy'n Ffynnu Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Creu llwybrau newydd i ffyniant. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy. |

5.51 Er mwyn cynnal a gwella rhwydwaith o ganol trefi, adolygir yr hierarchaeth manwerthu bresennol a nodir hierarchaeth manwerthu newydd yn y cynllun adneuo yn seiliedig ar dystiolaeth o astudiaeth manwerthu. Comisiynir astudiaeth manwerthu i ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer hierarchaeth manwerthu canol trefi, drwy asesu: tueddiadau allweddol yn y farchnad; patrymau siopa: ac angen manwerthu meintiol ac ansoddol. Os yw'n briodol, nodir tir yn y cynllun adneuo ar gyfer anghenion manwerthu yn y dyfodol.

5.52 Mae rôl canol trefi wedi'i nodi fel mater allweddol gan randdeiliaid. Mae'r polisi strategol yn archwilio rolau newydd ar gyfer canol y dref er mwyn iddynt elwa ar y twf arfaethedig mewn twristiaeth a hamdden. Bydd yr astudiaeth manwerthu a gomisiynir ar gyfer y cynllun adneuo yn adolygu'r rolau a nodwyd.

5.53 Bydd Glynebwy yn ehangu ei rôl fel prif ganolfan weinyddol a gwasanaeth y Fwrdeistref. Mae cyfleoedd hefyd i ddatblygu ei rôl ddiwylliannol yn seiliedig ar ei hanes haearn a dur.

5.54 Mae gan Abertyleri gyfleoedd i ddatblygu rolau cyflenwol o ran diwylliant, hamdden a thwristiaeth. Mae The Guardian ym Mharc Arreal Griffin yn atyniad twristaidd poblogaidd y dylai Abertyleri geisio elwa ohono. Un o gryfderau canol tref Abertyleri yw safle'r ganolfan o'i chymharu â thirlun y coetir a'r ucheldir. Mae yna gyfleoedd i ddatblygu seilwaith newydd i alluogi pobl i ddefnyddio'r amgylcheddau hyn ac i archwilio'r sgôp o 'agor' lleoliad naturiol y dref. Mae'r Metropole, Athrofa Llanhilledd a Thŷ Ebwy Fach yn cynnig cyfleoedd o amgylch diwylliant ac mae angen meithrin cysylltiadau â chanol y dref.

5.55 Bydd Tredegar yn ehangu ei harlwy twristiaeth drwy wneud y mwyaf o fanteision treftadaeth leol. Mae buddsoddiad diweddar ac arfaethedig ym Mharc a Gerddi Bedwellte a Pharc Bryn bach yn cynnig cyfleoedd i ddenu ymwelwyr ac i'r dref gael budd o ddarparu ar gyfer anghenion yr ymwelwyr. Mae'r gwaddol hanesyddol yn cynnig cyfleoedd i adeiladu cyfleoedd twristiaeth o amgylch llwybrau treftadaeth fel llwybr Aneurin Bevan a llwybrau i wneuthurwyr Haearn.

5.56 Mae lleoliad Brynmawr, yn y porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon yn rhoi cyfle i wasanaethu ymwelwyr naill ai drwy ddarparu cyfleusterau neu eu hannog i aros dros nos ym Mrynmawr. Mae cyfleoedd datblygu newydd yn ei alluogi i gynnig cyfleusterau hamdden a thwristiaeth.

5.57 Mae'r cyfraddau perchenogaeth ceir isel ym Mlaenau Gwent ynghyd â lefelau uchel o amddifadedd yn golygu bod angen i'r Cyngor sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn gallu cael mynediad i'r ardaloedd manwerthu. Mae hyn yn ymwneud â phob math o drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio (teithio llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Polisi Strategol 11: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd

1. Er mwyn darparu trafnidiaeth a hygyrchedd cynaliadwy bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau partner i:
 - a. Cyflawni Gwelliannau'r Metro gan gynnwys ymestyn y gwasanaeth rheilffordd i Abertyleri, y cynnydd yn amllder y gwasanaethau rheilffyrdd ar reilffordd Glynebwy ac integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol ar draws De-ddwyrain Cymru.
 - b. Cyflawni'r mesurau a'r cynlluniau trafnidiaeth allweddol a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol.
2. Er mwyn gwella cynaliadwyedd, dylid lleoli a chynllunio datblygiadau i leihau teithio, lleihau dibyniaeth ar geir preifat a galluogi mynediad cynaliadwy i gyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol. Yn dibynnu ar natur, graddfa a lleoliad y cynnig, bydd angen y datblygiad er mwyn:
 - a. Cyd-fynd â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy;
 - b. Diogelu, gwella ac ehangu'r rhwydweithiau teithio llesol a ddynodwyd ar Fap Llwybrau Presennol y Cyngor a'r Map Rhwydwaith Integredig, gan gynnwys cysylltiadau â'r rhwydweithiau fel ffordd o wella cysylltedd;
 - c. Cael ei gynllunio i ddarparu mynediad diogel ac effeithlon i'r rhwydwaith trafnidiaeth, sy'n cynnwys llwybrau teithio llesol, llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith priffyrdd strategol; a
 - ch. Darparu seilwaith ar gyfer codi tâl ar gerbydau.

| | |
|----------------|--|
| Amcanion CDLIN | 4, 5, 12, 13 |
| Deddf WCFG | Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg sy'n Ffynnu |

| | |
|---|--|
| | Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Creu llwybrau newydd i ffyniant. I annog ffyrdd iach o fyw. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach. |

5.58 Rhan allweddol o'r strategaeth yw creu rhwydwaith o gymunedau cysylltiedig da nad ydynt yn eu lle ar hyn o bryd. Mae hyn yn dibynnu ar ddarparu rhwydwaith o lwybrau teithio llesol sy'n cysylltu cartrefi â gwasanaethau lleol, cyflogaeth a mannau gwyrdd a rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus effeithlon ac integredig. Bydd cynigion y Metro yn galluogi Blaenau Gwent i ddarparu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus effeithlon ac integredig drwy: gynyddu amllder y gwasanaethau rheilffordd ar reilffordd Glynebwy i 4 yr awr (2 i Lynebwy a 2 i Abertyleri); darparu cyswllt rheilffordd newydd i Abertyleri; a darparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus integredig. Bwriedir i'r cynigion hyn gael eu cyflawni erbyn 2023.

5.59 Mae darparu dewis o foddau trafndiaeth sy'n cynnig dewisiadau teithio realistig yn lle'r car preifat yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae opsiynau teithio cynaliadwy yn cefnogi byw'n iach a ffyrdd egniïol o fyw, ac yn helpu i leddfu problemau a achosir gan orddibyniaeth ar y car. Pan fydd ceir yn cael eu defnyddio, mae angen symud cerbydau petrol a diesel i gerbydau allyriadau isel iawn. Mae'n bwysig bod datblygiadau newydd yn cynllunio ar gyfer y seilwaith codi tâl sydd ei angen.

| Polisi Strategol 12: Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol | |
|--|---|
| Er mwyn cynnal a gwella ansawdd bywyd ac iechyd a llesiant trigolion bydd y CDLIN yn: | |
| <ol style="list-style-type: none"> 1. Diogelu cyfleusterau cymunedol; 2. Dyrannu tir ar gyfer ysgolion newydd, lle bo angen a chefnogi datblygiad y Gymraeg; 3. Dyrannu tir ar gyfer cyfleusterau iechyd newydd, lle bo angen; 4. Dynodi tir ar gyfer claddfeydd er mwyn diwallu'r angen a nodwyd; 5. Diogelu mannau hamdden awyr agored a mannau agored; 6. Diogelu rhandiroedd rhag cael eu datblygu; a 7. Cefnogi seilwaith digidol ehangach gan gynnwys gwell signal ffôn symudol a band eang ffibr a chyflymder. | |
| Amcanion CDLIN | 6, 14 |
| Deddf WBFG | Cymru Ffyniannus Cymru Wydn Cymru Fwy Cyfartal Cymru Iachach Cymru o Gymunedau Cydlynol Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg sy'n Ffynnu Cymru sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
| LWBP | Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb. |

| | |
|---|---|
| | Cymunedau diogel a chyfeillgar. Diogelu ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol. I annog ffyrdd iach o fyw. |
| Egwyddorion Cynllunio Allweddol (PPW10) | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach. |

5.60 Mae cyfleusterau cymunedol yn bwysig i greu cymunedau cymdeithasol a gweithredol. Mae'r term cyfleusterau cymunedol yn cynnwys cyfleusterau addysg, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd a mannau addoli. Gall y cyhoedd, preifat neu grwpiau cymunedol fod yn berchen arnynt. Mae angen i'r CDLIN gymryd ymagwedd strategol a thymor hir tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau bod gofynion y gymuned yn cael eu bodloni. Mae'r CDLIN yn darparu ar gyfer rhywfaint o dwf er mwyn osgoi rhoi pwysau ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, lle mae adeiladu tai newydd yn creu angen na ellir ei letya bydd angen i'r datblygiad sicrhau bod anghenion y preswylwyr newydd yn cael eu diwallu.

5.61 Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio ar gyflawni'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae Band A yn agosáu at gael ei gwblhau gydag agoriad ysgol Six Bells eleni. Mae gwaith cynllunio Band B yn mynd rhagddo ac mae'n ymdrin â'r cyfnod 2019-2024 gyda bandiau C a D i ddilyn. Dyrennir tir yn y CDLIN lle bo angen. Bydd capasiti ysgolion a gynigir o dan y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, lle bo hynny'n bosibl yn unol â galluoedd ariannol a rhaglennu, yn adlewyrchu unrhyw dwf newydd mewn lleoedd ysgol a achosir gan y CDLIN. Asesir y newid yn y boblogaeth o blant a gynigir yn y CDLIN a'r effaith bosibl ar gapasiti ysgolion cynradd ac uwchradd a, lle y bo angen, ei liniaru, wrth ddyrannu safleoedd preswyl.

5.62 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2017-20 yn cyd-fynd yn uniongyrchol â fframweithiau strategol y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. Mae'r blaenoriaethau strategol o fewn y cynllun presennol, a adolygir yn 2020 fel a ganlyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020, er mwyn cyfrannu at y weledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Cynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan rieni er mwyn galluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i ysgol Gymraeg Bro Helyg gan 50% yn 2020.
- Gweithio'n rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

1.18 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 930 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 2,550 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

Dim Net

1.19 Mae'r sefyllfa hon yn seiliedig ar lifoedd mudo mewnol a rhyngwladol yn cael eu cydbwysu rhwng llifoedd i mewn ac allan, gan arwain at ymfudiad net o sero.

1.20 Mae'r senario'n rhagamcanu cynnydd poblogaeth o 238 (0.3%) gyda chynnydd o 1,162 o aelwydydd (3.7%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hon yw'r pedwerydd isaf o ran twf aelwydydd a nodwyd yn amcangyfrif cyfartaledd o 81 dpa dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 1,215). Mae'r ffigur o 81 dpa yn is o dipyn na'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol o 233 ychydig yn uwch na'r gyfradd cwblhau 5 mlynedd (80) diwethaf ond mae'n is na'r gyfradd cwblhau ar gyfartaledd o 10 mlynedd (96).

1.21 O dan y senario hwn byddai gostyngiad yn y boblogaeth o 299 yn y grwpiau oedran 0-14 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 4,570.

1.22 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 960 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 2,535 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

Dan arweiniad Anheddiad (Cyfartaledd 10 mlynedd)

1.23 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar dwf blynyddol aneddiadau wedi'i gymhwyso o 2019 ymlaen, yn seiliedig ar yr hyn a gwblhawyd dros y deng mlynedd diwethaf (2008/09-2018/19). Mae twf anheddiad blynyddol o 96 y flwyddyn wedi'i gymhwyso.

1.24 Mae'r senario'n rhagamcanu cynnydd yn y boblogaeth o 675 (1.0%) gyda chynnydd o 1,340 o aelwydydd (4.3%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hwn yw'r pumed isaf o ran twf aelwydydd a nodwyd yn amcangyfrif cyfartaledd o 94 o aneddiadau'r flwyddyn (dpa) dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 1,410). Mae'r ffigur o 94 dpa ymhell islaw'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol o 233, sy'n uwch na'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 mlynedd (80) diwethaf ac mae ychydig yn is na'r cyfartaledd o 10 mlynedd a gwblhawyd (96).

1.25 O dan y senario hwn byddai gostyngiad yn y boblogaeth o 204 yn y grwpiau oedran 0-14 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 4,615.

1.26 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 735 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 2,790 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

Dan arweiniad Anheddiad (Cyfartaledd 15 mlynedd)

1.27 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar dwf blynyddol aneddiadau wedi'i gymhwyso o 2019 ymlaen, yn seiliedig ar yr hyn a gwblhawyd dros y pymtheg mlynedd diwethaf (2004/05-2018/19). Mae twf anheddiad blynyddol o 102 y flwyddyn wedi'i gymhwyso.

1.28 Mae'r senario'n rhagamcanu cynnydd poblogaeth o 690 (1.0%) gyda chynnydd o 1,346 o aelwydydd (4.3%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hwn yw'r pumed ystod twf aelwydydd isaf a nodwyd yn amcangyfrif cyfartaledd o 99 dpa dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 1,410). Mae'r ffigur o 99 dpa yn is o dipyn na'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol o 233, sy'n uwch na'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 (80) a'r 10 mlynedd diwethaf (96).

1.29 O dan y senario hwn byddai gostyngiad yn y boblogaeth o 237 yn y grwpiau oedran 0-14 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 4,597.

1.30 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 720 dros gyfnod y Cynllun, fodd bynnag, pe bai rhagdybiaethau ar y gyfradd diweithdra yn gostwng a'r gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 2,790 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

PG Tymor Byr

1.31 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar gyfraddau mudo mewnol a rhagdybiaethau rhyngwladol llif ymfudo yn seiliedig ar gyfnod o chwe blynedd (2011/12-2016/17). Mae hon yn adeg debyg i Brif amcanestyniad LIC (h.y. 5-6 mlynedd) ond mae'n cynnwys ystadegau tair blynedd ddiweddaraf y boblogaeth.

1.32 Mae'r senario hwn yn cynyddu'r boblogaeth o 1,996 (2.9%) gyda chynnydd o 2,220 o aelwydydd (6.5%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hon yw'r trydydd dewis uchaf o ran twf

aelwydydd a nodwyd sy'n amcangyfrif cyfartaledd o 141 o aneddiadau'r flwyddyn (dpa) dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 2,115). Mae'r ffigur o 141 dpa yn is o dipyn na'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol o 233 ond mae'n uwch na'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 (80) a'r 10 mlynedd diwethaf (96).

1.33 O dan y senario hwn byddai gostyngiad yn y boblogaeth o 196 yn y grwpiau oedran 0-14 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 5,088.

1.34 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 240 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 3,375 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

PG Tymor Hir

1.35 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar gyfraddau mudo mewnol a rhagdybiaethau rhyngwladol llif ymfudo yn seiliedig ar gyfnod o 16 mlynedd (2001/02-2016/17).

1.36 Mae'r senario hwn yn rhagamcanu cynydd yn y boblogaeth o 3,400 (4.9%) gyda chynnydd o 2,558 o aelwydydd (8.2%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hwn yw'r ail ystod twf cartref uchaf a nodwyd gan amcangyfrif cyfartaledd o 179 o aneddiadau'r flwyddyn (DPA) dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 2,685). Mae'r ffigur o 179 dpa yn is na'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol, sef 233, ond mae ymhell uwchlaw'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 (80) a'r 10 mlynedd diwethaf (96).

1.37 O dan y senario hwn, byddai cynnydd yn y boblogaeth yn y grwpiau oedran 0-14 o 231 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 5,068.

1.38 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn cynyddu 300 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 4,005 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

PG Tymor Hir (wedi'i addasu)

1.39 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar gyfraddau mewnol mewnfudo wedi'u haddasu i adlewyrchu mewnfudo uwch (yn seiliedig ar y 5 mlynedd diwethaf) o Fryste a De Swydd Gaerloyw, ar ôl cael gwared ar y doll ar bont Hafren. Mae pob tybiaeth llif ymfudo arall yn gyson â senario hirdymor PD. Canlyniad hyn yw bod 92 o bobl ychwanegol yn dod i Flaenau Gwent o'r ardal hon bob blwyddyn.

1.40 Mae'r senario hwn yn cynyddu'r boblogaeth o 5,009 (7.2%) gyda chynnydd o 3,231 o aelwydydd (10.4%) dros gyfnod y Cynllun. Y senario hwn yw'r amrediad twf uchaf mewn aelwydydd a nodwyd yn amcangyfrif cyfartaledd o 226 o aneddiadau'r flwyddyn (dpa) dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 3,390). Mae'r ffigur o 226 dpa ychydig yn is na'r gofyniad anheddiad CDLI cyfredol o 233 ond mae ymhell uwchlaw'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 (80) a'r 10 mlynedd diwethaf (96).

1.41 O dan y senario hwn byddai cynnydd yn y boblogaeth yn y grwpiau oedran 0-14 o 656 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 5,299.

1.42 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn cynyddu 915 dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, os caiff tybiaethau ynghylch y gyfradd ddiweithdra eu lleihau a bod y gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 4,710 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

1.43 Rhoddwyd yr Opsiynau Twf hyn mewn tri opsiwn, sef isel, canolig ac uchel, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

| Opsiwn Twf | Lefel Tai a Chyflogaeth |
|--|--|
| Opsiwn 1 – Twf isel (yn seiliedig ar y prif amcanestyniadau diweddaraf LIC 2014 a gwaelodlin ymfudo ac OE o 10 mlynedd). | Poblogaeth: colled o 587 i 1,815 (-0.8% i golled o 2.6%) Tai: 19-54 y flwyddyn (Cyfanswm: 285-810) Cyflogaeth: colled o 106 i 71 y flwyddyn (Cyfanswm colled o – 1,065 i 1,590) |
| Opsiwn 2 – Twf canolig (yn seiliedig ar 3 amcanestyniadau wedi'u harwain gan aneddiadau (5, 10 y flwyddyn ar gyfartaledd) ac ymfudo Net o ddim). | Poblogaeth: 162 i ennill 846 (twf o 0.2 i 1%) Tai: 79-99 y flwyddyn (Cyfanswm 1,185-1,485) Cyflogaeth: colled o 48 i 64 y flwyddyn (Cyfanswm colled o rhwng 720 i 960) |
| Opsiwn 3 – Twf uchel (yn seiliedig ar PopGroup tymor byr, tymor hir, ac addasedig yn y tymor hir). | Poblogaeth: 1,996 i ennill 5,009 (twf o 2.9% i 7.2%) Tai: 141-226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 - 3,390) Cyflogaeth: colled o 16 i ennill 61 y flwyddyn (Cyfanswm colled o 240 i ennill 915) |

Lleoliad Twf

1.44 Yn ogystal â nodi'r lefel gyffredinol o dwf sydd ei hangen dros gyfnod y Cynllun, rhaid i'r Cynllun gyflwyno strategaeth ofodol glir ar gyfer lle y dylai'r datblygiad hwn ddigwydd. Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor, nodwyd 3 opsiwn gofodol a dau opsiwn ar gyfer hierarchaeth aneddiadau.

Opsiynau Gofodol

1.45 Nodwyd tri opsiwn gofodol fel a ganlyn:

Opsiwn 1 CDLI presennol – wedi'i seilio ar raniad gogledd-de gyda'r twf mwyaf yng Nglynebwy.

- Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i atgyfnerthu a chynyddu rôl Glynebwy fel y brif dref (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel y ganolfan), gan gyfarwyddo datblygiad i'r lleoliad mwyaf hygyrch lle mae'r rhan fwyaf o wasanaethau ar gael.

Opsiwn 2: Blaenau'r Cymoedd – y rhan fwyaf o'r twf ar hyd aneddiadau Blaenau'r Cymoedd

- Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i ledaenu'r twf ar hyd Blaenau'r Cymoedd lle mae mwy o gyfleoedd i ddarparu ar gyfer y twf mewn modd tecach a rhoi llai o bwysau ar wasanaethau yng Nglynebwy.

Opsiwn 3: Twf cytbwys – twf wedi'i ddsbarthu'n gyfartal yn ôl asesiad cynaliadwyedd aneddiadau.

- Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i ledaenu twf yn gyfartal ar draws y Fwrdeistref a chynnal gwasanaethau lleol. Bydd defnyddio asesiad cynaliadwyedd aneddiadau yn sicrhau bod mwy o ddatblygiad yn cael ei gyfeirio at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy.

Hierarchaeth Aneddiadau

1.46 Mae canllawiau drafft gan Lywodraeth Cymru (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiadau 3) para. 5.15-5.18) yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi hierarchaeth aneddiadau a rhaniad twf yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth lleoedd. Cyflwynwyd dau ddewis; y cyntaf yw hierarchaeth bresennol y CDLI a oedd yn seiliedig ar asesiad o rôl a swyddogaethau aneddiadau. Mae Opsiwn 2 yn seiliedig ar asesiad cynaliadwy o aneddiadau, fel y nodir yn y Papur ar: Asesiad Cynaliadwy o Aneddiadau. Mae'r hierarchaeth a nodwyd fel a ganlyn:

Opsiwn 1: CDLI cyfredol

| Prif Ganolfan: | Canolfannau Ardal | Canolfan Leol |
|----------------|------------------------------------|---------------|
| Glynebwy | Tredegar Brynmawr Abertyleri | Blaenau |

Opsiwn 2: Yn seiliedig ar Asesiad Cynaliadwy o Aneddiadau (yn seiliedig ar ffiniau CDLI)

| Haen 1: Prif Aneddiadau | Haen 2: Aneddiadau Eilaidd | Haen 3: Pentrefi a Phentrefannau | |
|---|----------------------------|---|--|
| Glynebwy Tredegar Brynmawr / Nantyglo/ Blaenau) Abertyleri / Cwmtylleri / Six Bells/ Brynithel/ Llanhilledd ac Aber-big | Cwm | Trefil Pochin Pyllau Bedwellte Swfrydd | |

Opsiynau Strategaeth Ofodol

1.47 O'r tair elfen o dwf hyn, dosbarthiad gofodol a hierarchaeth aneddiadau, crëwyd tri opsiwn ar gyfer y Strategaeth Ofodol fel a ganlyn:

Opsiwn 1: Twf ac Adfywio (CDLI Cyfredol)

| Lefel Twf | Dosbarthiad Gofodol | Hierarchaeth Aneddiadau |
|---|---|--|
| Twf Canolig Poblogaeth: 162 i ennill 846 (twf 0.2 i 1%) Tai: 79-99 y flwyddyn (Cyfanswm 1,185-1,485) Cyflogaeth: colled o 48 i 64 y flwyddyn (Cyfanswm colled o rhwng 720 i 960) | Rhaniad gogledd-de gyda'r rhan fwyaf o'r twf yn y gogledd a chyda ffocws twf yng Nglynebwy . | Prif Ganolfan: Glynebwy Canolfannau Ardal: Tredegar Brynmawr Abertyleri Canolfan Leol: Blaenau |

1.48 Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar y CDLI cyfredol gan ystyried ei fod yn anelu at sefydlogi'r boblogaeth.

Opsiwn 2: Cymunedau Cytbwys a Chydgyssylltiedig

| Lefel Twf | Dosbarthiad Gofodol | Hierarchaeth Aneddiadau |
|--|--|--|
| Twf Isel Poblogaeth: colled o rhwng 587 i 1,815 (colled -0.8% i 2.6%) Tai: 19-54 y flwyddyn (Cyfanswm: 285-810) Cyflogaeth: colled o 106 i 71 y flwyddyn (Cyfanswm colled o -1,065 i 1,590) | Twf Cytbwys Wedi'i ddisbarthu'n gyfartal ar draws y Fwrdeistref. | Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy Tredegar Brynmawr/ Nantyglo/Blaenau Abertyleri / Cwmtylleri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Aneddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil Pochin Pyllau Bedwellte Swfrydd |

1.49 Nod yr opsiwn hwn oedd creu cymunedau â chydbwysedd cynaliadwy gan gydnabod bod angen iddynt gael eu cysylltu'n dda er mwyn sicrhau bod yr opsiwn yn gynaliadwy. Roedd yr opsiwn o'r farn y byddai angen lefel twf isel er mwyn gallu dosbarthu twf yn gyfartal o ystyried y diffyg cyfleoedd yn ne'r Fwrdeistref.

Opsiwn 3: Strategaeth Twf Economaidd

| Lefel Twf | Dosbarthiad Gofodol | Hierarchaeth Aneddiadau |
|--|--|---|
| Twf Uchel Poblogaeth: 1,996 i ennill 5,009 (2.9% i dwf o 7.2%) Tai: 141-226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 - 3,390) Cyflogaeth: colled o 16 i ennill 61 y flwyddyn (Cyfanswm colled o 240 i ennill 915) | Rhaniad gogledd-de ar sail cyfleoedd ar gyfer twf ar hyd Blaenau'r Cymoedd . | Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy Tredegar Brynmawr/ Nantyglo/Blaenau Abertyleri / Cwmtylleri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Aneddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil Pochin Pwyllau Bedwellte Swfrydd |

1.50 Nod yr opsiwn hwn oedd sicrhau twf economaidd, sef un o'r prif faterion a godwyd gan randdeiliaid ac sy'n flaenoriaeth i'r Cyngor. Ystyriwyd y byddai lledaenu'r twf hwn ar hyd Blaenau'r Cymoedd yn decach na chanolbwyntio'r cyfan yng Nglynebwy.

1.51 Ar ôl ymgysylltu ag Aelodau'r Cyngor, cynhwyswyd pedwerydd opsiwn fel a ganlyn:

Opsiwn 4: Twf Economaidd Cynaliadwy

| Lefel Twf | Dosbarthiad Gofodol | Hierarchaeth Aneddiadau |
|---|---|---|
| Twf Uchel Poblogaeth: 1,996 i 5,009 (tyfiant 2.9 i 7%) Tai: 141 i 226 y flwyddyn (Cyfanswm 2,115 i 3,390) Cyflogaeth: -16 i 61 y flwyddyn (Cyfanswm -240 i plws 915) | Twf Cytbwys Dosbarthu'n gyfartal ar draws y Fwrdeistref. | Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy Haen 1: Prif Aneddiadau Glynebwy Tredegar Brynmawr/ Nantyglo/Blaenau Abertyleri / Cwmtylleri / Six Bells / Brynithel / Llanhilledd / Aber-big Haen 2: Aneddiadau Eilaidd Cwm Haen 3: Pentrefannau Trefil Pochin Pwyllau Bedwellte Swfrydd |

1.52 Roedd yr Aelodau'n gefnogol i ddull gweithredu a oedd yn dosbarthu'r twf ar draws y Fwrdeistref. Er yr ystyrid mai twf uchel fyddai'r dyhead, roedd ganddynt bryderon ynghylch a ellid cyflawni'r lefel hon o dwf.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid

1.53 Cynhaliwyd ystyriaeth o'r opsiynau gydag amrywiaeth o randdeiliaid drwy nifer o weithdai a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf ac Awst 2019. Cyhoeddir crynodeb o'r adborth a gafwyd fel rhan o'r sail dystiolaeth.

Ystyried Opsiynau Twf

1.54 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r opsiwn twf uchel (71%) gyda'r gweddill yn cefnogi'r opsiwn twf canol (29%). Nid oedd cefnogaeth i Opsiwn 3. O'r rhai a ddewisodd opsiwn penodol (35 allan o 40) o fewn y senario twf uwch roedd rhaniad mwy fyth ar draws y tri senario er i'r PG Tymor Hir wedi'i addasu fod yr un mwyaf poblogaidd (42%) gyda'r 2 senario arall yn derbyn (29% yr un).

Ystyried Dosbarthiad Gofodol

1.55 Gofynnwyd hefyd i randdeiliaid nodi dewis ar gyfer Dosbarthiad Gofodol y Twf. Opsiwn 3: Twf Cytbwys oedd yr opsiwn a ffefir gyda 63% yn dewis yr opsiwn hwn. Dewisodd bron i draean y bobl Opsiwn 2: Blaenau'r Cymoedd (30%) a dim ond 7% yn dewis Opsiwn 1: CDLI Cyfredol (rhaniad gogledd-de gyda phwyslais twf ar Lynebwy).

Ystyried Hierarchaeth Aneddiadau

1.56 Pan ofynnwyd iddynt nodi'r hierarchaeth aneddiadau a ffefir, dewisodd y mwyafrif o randdeiliaid (84%) Opsiwn 2 yn seiliedig ar yr Asesiad Cynaliadwy o Aneddiadau.

Ystyried Opsiynau'r Strategaeth

1.57 Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid nodi eu dewis opsiwn eu hunain trwy ddefnyddio'r opsiynau a roddwyd neu trwy nodi dewis arall. Er mai'r opsiwn a ffefir oedd Opsiwn 4: Twf Economaidd Cynaliadwy dim ond 30% a oedd yn cytuno'n llwyr â'r opsiwn. Roedd yr anghytundeb mwyaf cyffredin yn gorwedd gyda lefel y twf gyda nifer sylweddol yn ffafrio twf canolig, wedi'i ddsbarthu ar draws y Fwrdeistref a defnyddio'r hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymir bod yr Opsiwn a Ffefir yn cael ei ddiwygio i gynnwys ffigur gofyniad Tai ar ben isaf yr opsiynau. Pryder cyffredinol arall oedd ynghylch lleoliad twf gyda dros draean y rhanddeiliaid (34%) yn ffafrio Blaenau'r Cymoedd. Fodd bynnag, o gofio bod y rhan fwyaf o'r prif aneddiadau yng ngogledd y Fwrdeistref ar hyd Blaenau'r Cymoedd bydd pwysiad naturiol tuag at Flaenau'r Cymoedd.

1.58 Cynigir felly fod y lefel twf a gynhwysir yn Opsiwn 4 yn cael ei ailystyried er mwyn creu'r Opsiwn Strategaeth a Ffefir.

Ystyried Materion Eraill

1.59 Wrth nodi angen ar lefel twf, rhaid pwyso a mesur y galw yn erbyn ffactorau cyflenwi megis cyflawni a chyfyngiadau. Y prif fater i Flaenau Gwent yw cyflawni, gan beri problemau o ran hyfywedd a sicrhau eu bod yn gyflawnadwy. O ran y cyflawnadwyedd, byddai cyfraddau cwblhau yn y gorffennol yn cefnogi twf canolig rhwng 80 a 99. Mae hyn oherwydd diffyg diddordeb gan yr adeiladwyr tai cenedlaethol oherwydd pryderon ynghylch hyfywedd sydd wedi arwain at gyfraddau darparu isel dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyfywedd safleoedd yn ymylol gyda rhai ardaloedd heb allu cefnogi cyfraniadau tai fforddiadwy na gofynion S106 eraill. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae'r Cwmnïau Cenedlaethol wedi

dychwelyd i'r ardal ac erbyn hyn mae rhywfaint o optimistiaeth ynghylch darparu Tai, yn enwedig yn ardal Glynebwy.

1.60 Yn cefnogi'r safiad cadarnhaol hwn mae Strategaeth Twf a Buddsoddi'r Cyngor sy'n anelu at dyfu'r boblogaeth a chefnogi twf economaidd. Mae'r ffactorau eraill sy'n sbarduno newid yn cynnwys deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd, buddsoddiad o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cymoedd Technoleg, Tasglu'r Cymoedd a'r Metro.

1.61 Cynigir y dylid cymedroli'r lefel twf uchel i lefel y gellir ei chyflawni. Cynigir y dylid diystyru'r senario PG Tymor Hir ar y sail ei bod yn annhebygol iawn o ddigwydd o ystyried y byddai angen i lefelau ymfudo net gynyddu o'r colledion cyfartalog presennol o 31 y flwyddyn (Ystadegau Cymru 2011-2016) i godiadau o 297 y flwyddyn. Yn ogystal, ystyrir nad yw'r lefelau cyflenwi Tai yn ddichonadwy ac nad ydynt yn gynaliadwy. Byddai twf o'r fath yn arwain at bwysau ar ysgolion a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes na fyddai datblygu yn gallu eu darparu oherwydd materion hyfywdra.

1.62 Mae sefyllfa tymor hir PG, er yn ddymunol, hefyd yn cael ei ddiystyru ar y sail na fydd modd ei gyflawni. Byddai hyn yn gofyn am gyfradd cwblhau tai o 179 sydd ymhell uwchlaw (86%) Cyflawnwyd y gyfradd gwblhau yn y gorffennol dros y 10 mlynedd diwethaf (96).

1.63 O ystyried y pwyslais a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyflenwad tai dichonadwy a chyflawnadwy, cynigir defnyddio'r senario PG Lefel Isaf (144 o gartrefi) fel y dyhead ar gyfer y Cynllun a gosod ffigur ar gyfer gofyniad Tai sydd ychydig yn is na hyn sef 117 o gartrefi'r flwyddyn sy'n gynydd ar yr hyn a gyflawnwyd dros y 10 mlynedd diwethaf. Defnyddir y ffigur dyhead i bennu ffigur hyblygrwydd y Cynllun (22%).

1.64 Crëwyd senario newydd yn seiliedig ar ragamcaniad o 120 o aneddiadau'r flwyddyn. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Dan arweiniad Anheddiad 120 y flwyddyn

1.65 Mae'r senario hwn yn seiliedig ar dwf blynyddol aneddiadau wedi'i gymhwyso o 2019 ymlaen, yn seiliedig ar 120 y flwyddyn yn cael eu cymhwyso.

1.66 Mae'r senario yn rhagamcanu cynnydd yn y boblogaeth o 1,471 (2.0%) gyda chynnydd o 1,671 o aelwydydd (5.4%) dros gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn amcangyfrif cyfartaledd o 117 dpa dros gyfnod y Cynllun (cyfanswm o 1,755). Mae'r ffigur o 117 dpa yn is o dipyn na'r gofyniad aneddiadau CDLI cyfredol o 233, er ei fod yn uwch na'r lefelau cwblhau cyfartalog dros y 5 (80) a'r 10 mlynedd diwethaf (96).

1.67 O dan y senario hwn byddai gostyngiad yn y boblogaeth yn y grwpiau oedran 0-14 o 87 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 60+ o 4,668.

1.68 Byddai nifer y bobl yn yr ystod oedran gweithio yn gostwng 420 dros gyfnod y Cynllun, fodd bynnag, pe bai rhagdybiaethau ar y gyfradd diweithdra yn gostwng a'r gyfradd gweithgarwch economaidd yn cael ei chynyddu i gyfartaledd Cymru; a chyfraddau cymudo wedi gostwng i 1.20 yna byddai 3,150 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun.

1.69 Roedd materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arfarniad Cynaliadwy Integredig Cychwynnol wedi arwain at yr angen i ailystyried dosbarthiad twf. Er mai'r egwyddor yw

lledaenu'r twf ar draws y Fwrdeistref mae angen cyfeirio'r twf at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Hierarchaeth Aneddiadau i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfeirio at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Mae hyn wedi golygu creu mwy o haenau a chrynhoad datblygu yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Mae wedi arwain hefyd at rannu anheddiad Abertyleri/Cwmtyleri/Six Bells/Brynithel/Llanhilledd/Aber-big yn ddau anheddiad Abertyleri (yn cynnwys Cwmtyleri a Six Bells) ac Aber-big/Llanhilledd. Gwnaed hyn i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cynaliadwyedd yr aneddiadau llai hyn.

1.70 Nodwyd yr Opsiwn canlynol fel yr Opsiwn a Ffefirir:

Opsiwn 5: Twf Economaidd Cynaliadwy

| Lefel Twf | Dosbarthiad Gofodol | Hierarchaeth Aneddiadau |
|--|---|--|
| <p>Twf Uchel Poblogaeth: 1,471-1,996 i (twf o 2 i 2.9%) Tai: 117-141 y flwyddyn (Cyfanswm 1,755 i 2,115) Cyflogaeth: colled o 28 i 16 y flwyddyn (Cyfanswm colled o 420 i 240) Gyda UR yn lleihau ac addasu EA a CR yn lleihau 210 i 225 y flwyddyn (Cyfanswm 3150-3375)</p> | <p>Wedi'i wasgaru ar draws y Fwrdeistref yn seiliedig ar Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy</p> | <p>Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy Haen 1: Aneddiadau Sylfaenol Glynebwy Haen 2: Prif Aneddiadau Tredegar Brynmawr/ Nantyglo / Blaenau Abertyleri (gan gynnwys Cwmtyleri a Six Bells) Haen 3: Aneddiadau Eilaidd Cwm Aber-big/Brynithel/Llanhilledd Haen 4: Pentrefi Swfrydd Haen 5: Pentrefannau Trefil Pochin Pyllau Bedwellte</p> |

Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy

| Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy | SP1 | SP2 | SP3 | SP4 | SP5 | SP6 | SP7 | SP8 | SP9 | SP10 | SP11 | SP12 | SP13 | SP14 | SP15 |
|---|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|------|------|------|------|------|------|
| 1. Uchafu Diogelu Amgylcheddol a Chyfyngu Effaith Amgylcheddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn | | | | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Tirweddau nodedig ac arbennig | | | | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Seilwaith gwyrdd integredig | | | | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Seinweddau priodol | | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Yn lleihau risgiau amgylcheddol | | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | ✓ |
| Yn rheoli adnoddau dŵr yn naturiol | | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Aer glân | | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Yn lleihau llygredd cyffredinol | | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd | | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig | | | | | | | | | | | | | | ✓ | |
| 2. Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mannau gwyrdd hygyrch ac o ansawdd uchel | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | | |
| Yn hygyrch drwy gyfrwng teithio llesol a chlodiant | | | | | | | | | | | ✓ | | | | |


| Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy | SP1 | SP2 | SP3 | SP4 | SP5 | SP6 | SP7 | SP8 | SP9 | SP10 | SP11 | SP12 | SP13 | SP14 | SP15 |
|--|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|------|------|------|------|------|------|
| cyhoeddus | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ddim yn dibynnu ar y car | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | | | | |
| Yn lleihau'r angen i deithio | | | | | | | | | | | ✓ | | | | |
| Yn darparu mynediad cyfartal | | | | | | | | | | | ✓ | | | | |
| Yn teimlo'n ddiogel a chynhwysol | | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| Yn cefnogi poblogaeth amrywiol | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | |
| Cysylltiadau da | | | | | | | | | | | ✓ | | | | |
| Mynediad cyfleus at nwyddau a gwasanaethau | ✓ | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | | | |
| Yn hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol | | | | | | | | | | | | ✓ | | | |
| 3. Gwneud y Gorau o Adnoddau | | | | | | | | | | | | | | | |
| Yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol | | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | |
| Atal gwastraff | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | |
| Yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | | | ✓ | |
| Yn datgloi potensial ac adfywio | ✓ | | | | | | | ✓ | | | | | | | |
| O ansawdd uchel ac wedi'i adeiladu i bara | | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| 4. Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy | | | | | | | | | | | | | | | |

| Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy | SP1 | SP2 | SP3 | SP4 | SP5 | SP6 | SP7 | SP8 | SP9 | SP10 | SP11 | SP12 | SP13 | SP14 | SP15 |
|--|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|------|------|------|------|------|------|
| Yn meithrin gweithgarwch economaidd | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | |
| Yn galluogi cyfathrebu hawdd | | | | | | | | | | | | ✓ | | | |
| Yn cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun | | | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| Bywiog a deinamig | | | | ✓ | | | | | | | | | | | |
| Yn addasu i newid | | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | |
| Yn cwmpasu technoleg smart ac arloesol | | | | ✓ | | | | | | | | | | | |
| 5. Creu a Chynnal Cymunedau | | | | | | | | | | | | | | | |
| Yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu | | | | | | | | | | | | ✓ | | | |
| Dwyseddau datblygu priodol | | | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| Cartrefi a swyddi i ddiwallu anghenion cymdeithas | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Cymysgedd o ddefnyddiau | ✓ | | | | | | | | | | | | | | |
| Yn cynnig profiadau diwylliannol | | | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | ✓ | |
| Cyfleusterau a gwasanaethau yn y gymuned | | | | | | | | | | ✓ | | ✓ | | | |

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent

Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol


Y Gweithfeydd



Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent

Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol


Coridor Gogledd Glynebwy



Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent

Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol

Cyn-ysgol Gyfun Nantyglo



Atodiad 6: Dadansoddiad o Gyflawniadau Cyflenwadau Tai, Ymrwymïadau, safleoedd bach a mawr ar hap

| Ardal Strategaeth | Anheddiad | Cyflawniadau | Ymrwymïadau | Ar hap Mawr (10+) | Ar hap Bach (o dan 10) | Dyraniadau Defnydd Cymysg Strategol | Dyraniadau Defnydd Cymysg nad ydynt yn Strategol | CYFANSWM |
|------------------------|---|--------------|-------------|-------------------|------------------------|-------------------------------------|--|--------------------|
| Ebwy Fach | Haen 1: Glynebwy | 28 | 425 | 83 | 141 | 675 (320*) | 0 | 952 (+45) |
| Cwm Sirhywi | Haen 2:Tredegar | 31 | 55 | 53 | 67 | 0 | 217 | 423 |
| Ebwy Fawr Uchaf | Haen 2:Brynmawr / Nantyglo/ Blaenau | 14 | 97 | 53 | 67 | 220 | 0 | 423 (+28) |
| Ebwy Fach Isaf | Haen 2: Abertyleri (gan gynnwys Cwmtyleri a Six Bells) | 2 | 0 | 26 | 34 | 0 | 149 | 211 |
| | Haen 3: Cwm ac Aber-big / Brynithel / Llanhilledd Haen 4: Swfrydd Haen 5: Trefil, Pochin, a Phyllau Bedwellte | 0 | 28 | 51 | 27 | 0 | 0 | 106 |
| CYFANSWM | | 75 | 605 | 266 | 336 | 540 | 366 | 2,115 (+73) |

** yn dynodi'r nifer y disgwylir ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun*

Mae rhagor o wybodaeth am gyflawniadau, ymrwymïadau a safleoedd ar hap mawr a bach i'w gweld yn y ddogfen ategol Cyflenwad Tai

| | |
|--|---|
| Tai Fforddiadwy | Tai lle mae mecanweithiau diogel ar waith i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rhai na allant fforddio tai ar y farchnad agored, yn y lle cyntaf ac i'r meddianwyr dilynol. Gellir rhannu tai fforddiadwy yn ddau gategori: <ul style="list-style-type: none"> • Tai Rhent Cymdeithasol – yn cynnwys y stoc a ddarperir gan gynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae lefelau rhent yn rhoi sylw i renti canllaw a rhenti meincnod Llywodraeth Cymru. • Tai Canolraddol – yn ymdrin â darpariaeth tai lle mae prisiau neu renti yn uwch na rhai tai rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti tai'r farchnad. Gall hyn gynnwys cynlluniau rhannu ecwiti. Mae tai canolraddol yn wahanol i dai ar y farchnad cost isel, nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn fforddiadwy at ddibenion y system cynllunio defnydd tir. |
| Bioamrywiaeth | Cyfoeth ac amrywiaeth pethau byw (planhigion, adar, anifeiliaid, pysgod a phryfed ac ati) sy'n bodoli mewn ardal benodol, a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal. |
| Tir llwyd | Gweler Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen |
| Safleoedd Ymgeisiol | Tir a gyflwynir i'r Cyngor, fel rhan o broses ffurfiol, i'w ystyried fel safle posibl a allai gyfrannu at anghenion datblygu'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. |
| Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS) | Mae'r CIS yn nodi sut mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bwriadu cynnwys cyrff ymgynghori a'r cyhoedd wrth baratoi'r CDLI. Cyflwynir y CIS i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer ei gytundeb. |
| Adneuo | Y term sy'n cyfeirio at y broses o gyhoeddi polisiau manwl y CDLI a chynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gosod y cynllun "ar adnau". |
| CDLI Adneuo | Drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad cyhoeddus. |
| Cynllun Datblygu | Dogfen sy'n nodi polisiau a chynigion yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yn ardal yr awdurdod. |
| Gwasanaethau Ecosystem | Y llu o adnoddau a phrosesau a ddarperir gan ecosystemau naturiol ac a ddefnyddir gan bobl. Maent yn cynnwys darparu bwyd a dŵr, rheoli llifogydd, hamdden a manteision diwylliannol. |
| Asesiad Effaith Cydraddoldeb | Ni fydd y broses o werthuso'r Cynllun i sicrhau y caiff ei weithredu yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd wedi'u categorio fel rhai sydd dan anfantais neu sy'n agored i niwed o fewn cymdeithas. |
| Safleoedd Ewropeaidd | Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Dynodir pob safle Ewropeaidd o dan gyfreithiau Ewropeaidd. |
| Seilwaith Gwyrdd | Y rhwydwaith o ofod gwyrdd aml-swyddogaethol, yn cwmpasu tir a dŵr (gofod glas). Gallai'r ardaloedd a gynhwysir fod yn rhai newydd a phresennol, gwledig a threfol, sy'n cefnogi'r prosesau naturiol ac ecolegol ac yn darparu ystod eang o fuddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymunedau lleol. |

| | |
|---------------------------------------|---|
| Safleoedd glas | Tir nas adeiladwyd arno erioed, glaswelltir, tir fferm neu weundir fel arfer. |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Mae'r asesiad hwn yn offeryn a ddatblygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i helpu awdurdodau cymwys (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd) i gynnal asesiad er mwyn sicrhau na fydd prosiect, cynllun neu bolisi yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safle Ewropeaidd (gweler y diffiniad uchod). |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) | Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| Mabwysiadu CDLI | Cam olaf y broses o baratoi CDLI pan ddaw'r CDLI yn gynllun datblygu statudol at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |
| Amcanion CDLI | Cyfres o fwriadau trosfwaol sy'n ymhelaethu ar y weledigaeth ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun. |
| Cytundeb Cyflawni CDLI | Dogfen sy'n cynnwys amserlen y Cyngor ar gyfer paratoi'r CDLI, i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arni. |
| Adnoddau naturiol | Deunyddiau sy'n digwydd yn naturiol sy'n ddefnyddiol i ddyn. Yn cynnwys mwynau, pren, tir, carreg, ecosystemau, ac ati. |
| Cyfnod y Cynllun | Y cyfnod o amser y mae cynllun yn ei gwmpasu. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd Blaenau Gwent yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2033. |
| Strategaeth a Ffeirir | Cam yn y broses o baratoi dogfen y cynllun datblygu lle mae'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â materion allweddol a bodloni gofynion datblygu yn cael eu nodi a'u hasesu a bod strategaeth ddewisol yn sail i'r Cynllun yn cael ei chyflwyno. |
| Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen | Tir sydd neu a oedd yn cael ei feddiannu gan adeiledd parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Cynhwysir cwrtill y datblygiad, yn ogystal ag adeiladau amddiffyn, a thir a ddefnyddir i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff lle na wnaed darpariaeth ar gyfer ei adfer drwy weithdrefnau rheoli datblygu. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | Proses ffurfiol lle mae unigolion a sefydliadau yn cael eu gwahodd i wneud sylwadau ar y CDLI. |
| Ynni Adnewyddol | Fe'i gelwir hefyd yn 'Ynni Cynaliadwy' fel y term a ddefnyddir i ymdrin â'r ffynonellau ynni hynny, ar wahân i danwydd ffosil neu danwydd niwclear, sydd ar gael yn barhaus ac yn gynaliadwy yn ein hamgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gwynt, dŵr, haul, ynni geothermol, a deunydd planhigion y cyfeirir ato'n aml fel 'biomas'. |
| Heneb Restredig | Gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol sydd wedi cael statws arbennig gan Lywodraeth Cymru oherwydd eu bod yn bodloni meini prawf penodol. |
| Ffin Anheddiad | Offeryn cynllunio yw ffin anheddiad sy'n cynnwys llinell ddamcaniaethol wedi'i thynnu ar fap i nodi'r ffin i anheddiad. Yn nodweddiadol, caniateir datblygu tai o fewn y ffin hon yn unig, ac ystyrir bod ardaloedd y tu hwnt iddi yn gefn gwlad. |
| Hierarchaeth | Dosberthir aneddiadau o fewn yr hierarchaeth yn ôl y boblogaeth a |

| | |
|--|---|
| Aneddiadau | Iefel y gwasanaethau o fewn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bach iawn â gwasanaethau cyfyngedig iawn, os o gwbl, yn syrthio y tu allan i'r hierarchaeth ac yn cael eu diffinio fel cefn gwlad. |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol (SoDdGA) | Safle a nodwyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) fel ardal o ddiddordeb arbennig oherwydd unrhyw un o'i fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffig (yn y bôn, planhigion, anifeiliaid, a nodweddion naturiol sy'n ymwneud â strwythur y Ddaear). |
| Opsiynau Gofodol | Ystod y gwahanol ddsbarthiadau daearyddol eang o ddatblygiadau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer lefel y twf a ragwelir dros gyfnod y CDLIN. |
| Strategaeth Ofodol | Dosbarthiad daearyddol eang datblygiadau i ddarparu ar gyfer lefel y twf a ragwelir dros gyfnod y CDLI. |
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig | Dynodiad safle a bennir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae pob safle wedi'i ddynodi ar gyfer un neu ragor o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir yn y Gyfarwyddeb. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun rheoli gael ei baratoi a'i weithredu ar gyfer pob ACA er mwyn sicrhau statws cadwraeth ffafriol y cynefinoedd neu'r rhywogaethau y cafodd ei ddynodi ar eu cyfer. Ar y cyd ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), mae'r safleoedd hyn yn cyfrannu at y rhwydwaith Natura 2000. |
| Ardaloedd Tirwedd Arbennig | Dynodiad tirwedd lleol sy'n nodi ardaloedd o bwysigrwydd tirwedd o fewn y Sir lle bydd polisïau tirwedd arbennig yn berthnasol. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir at bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir" (gweler hefyd Arfarniad Cynaliadwyedd). |
| Polisi Strategol | Polisïau trosfwaol sy'n gosod naws y CDLI ac yn darparu egwyddorion arweiniol sy'n tanategu ffurfio polisïau manwl a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. |
| Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol | Safleoedd sy'n gallu lletya 100 neu fwy o dai ac sy'n cynnwys defnydd cymysg. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | Polisi a chanllawiau ategol a all ymdrin ag ystod o faterion, yn thematig ac yn benodol i safle ac sy'n darparu rhagor o fanylion am bolisïau a chynigion mewn cynllun datblygu. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd | Offeryn ar gyfer gwerthuso polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol). Mae S62 (6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal arfarniad cynaliadwyedd o'i CDLI. Mae'r math hwn o arfarniad cynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion Cyfarwyddeb SEA a'r Rheoliadau. |
| Datblygu | Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a |

Cynaliadwy

chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni ein hunain mewn ffyrdd sy'n:

- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; a
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol. Datblygu cynaliadwy yw'r broses ar gyfer cyrraedd ein nod cynaliadwyedd.



Cyngor Bwrdeistref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council



Tîm Polisi Cynllunio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Swyddfeydd
Bwrdeisiol, Canolfan Ddinesig, Glynebwy, NP23 6XB

Ffôn: 01495 354740

E-bost: planningpolicy@blaenau-gwent.gov.uk

Gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk

